er mwyn cwrdd ag anghenion gofal a chymorth yr unigolyn ar lefel strategol a gweithredol.

12:12

Bydd yr awdurdod lleol a'r asiantaethau sy'n bartneriaid iddo yn edrych drwy'r amser ar beth mae llesiant yn ei olygu i unigolion ledled Cymru

12:22

ac o fewn ffiniau'r byrddau iechyd, ac wedyn yn ystyried i ba raddau y mae llesiant unigolion wedi'i wireddu.

12:30

A byddant yn gwneud penderfyniadau ynghylch argaeledd gwasanaethau, y gwasanaethau sydd angen eu comisiynu, eu datblygu a'u datgomisiynu

12:39

ond yn sicrhau drwy'r amser ein bod mewn lle i allu cwrdd ag anghenion unigolion yng Nghymru

12:45

o ran llesiant a gofal a chymorth. Roedd Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol Cymru

12:52

wedi dod i rym flwyddyn ar ôl y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, ac mae'r ddeddf hon hefyd yn rhoi pwys mawr ar wella llesiant unigolion

13:02

drwy'r rheoliadau a'r canllawiau statudol. Byddwch yn gweld cyfeiriad at rôl y darparwr o ran hyrwyddo a gwella llesiant.

13:09

Mae'r diffiniad o lesiant yr unigolyn i'w gael yn y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant,

13:16

a dyma lle rydym yn dechrau gweld rhai o'r cysylltiadau â RISCA a byddwn yn edrych wedyn ar y diffiniad o lesiant.

13:23

Mae RISCA yn rhoi mwy o bwys ar sicrhau llais cryfach i unigolion yn y trafodaethau sy'n digwydd ar eu sefyllfa,

13:31

penderfyniadau sydd angen eu gwneud, datblygu ac adolygu'r cynlluniau gyda'r unigolyn:

13:38

mae hyn yn golygu mwy na chael sgwrs gyda'r unigolyn, ac mae'r egwyddor cydgynhyrchu yn gadarn iawn mewn perthynas ag asesu unigolion,

13:47

sef bod unrhyw gynlluniau personol i gael eu datblygu gyda'r unigolyn yn hytrach na'u hysgrifennu ar ei ran.

13:54

Mae pwyslais mawr ar gryfhau'r amddiffyniad i unigolion, nid yn unig mewn cysylltiad â gweithdrefnau diogelu,

14:02

ond yr angen sicrhau ein bod yn ystyried pob agwedd ar lesiant yr unigolyn,

14:07

sicrhau ein bod yn ymateb i'r cwmnïau sy'n cael eu dwyn i sylw'r unigolyn ac ar ei gyfer,

14:14

ac ystyried sut rydym yn rheoli unrhyw risgiau a nodwyd. Ond mae'r risgiau hynny i gael eu rheoli mewn ffordd gadarnhaol

14:22

yn hytrach na hyrwyddo diwylliant lle mae tuedd i osgoi risg. Ceir pwyslais mawr hefyd ar gynyddu atebolrwydd, er enghraifft drwy gyflwyno rôl yr unigolyn cyfrifol.

14:34

Yn nhermau cynyddu atebolrwydd, mae hyn yn cynnwys nid yn unig y pwyslais ar rôl yr unigolyn cyfrifol,

14:42

ond hefyd yr angen i ystyried sut bydd darparwyr yn sicrhau bod ansawdd eu darpariaeth yn cyrraedd y safon sy'n ofynnol

14:51

a byddwn yn edrych ar agweddau ar hynny yn ystod y sesiwn. Gyda golwg ar lesiant, mae dau ddiffiniad ohono yn y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant

15:02

sydd, fel y nodwyd yn gynharach, yn cysylltu â RISCA. Mae diffiniad o lesiant ar gyfer oedolion ac mae diffiniad o lesiant ar gyfer plant.

15:12

Ac ar y sgrin ar y funud byddwch yn gweld y diffiniad o lesiant ar gyfer oedolion.

15:18

Mae'r cod ymarfer o dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yn tynnu sylw at y ddyletswydd i hyrwyddo llesiant

15:26

ac mae'n bwysig nodi nad yw hyrwyddo llesiant bob amser yn golygu bod rhaid i ni ddarparu gwasanaeth neu ymyriad

15:34

neu ddarparu ymarferydd neu weithiwr proffesiynol dynodedig.

15:40

Yn achos rhai pobl, bydd sgwrsio â rhywun am y math o ddiwrnod a gafodd yn ffordd i hyrwyddo ei lesiant.

15:47

Ond mae'r sbectrwm o anghenion a'r sbectrwm o ffyrdd i hyrwyddo llesiant yr unigolyn

15:53

yn gallu amrywio ar y naill law o'r sgwrs am y math o ddiwrnod a gafodd,

15:58

sut mae'n teimlo, a yw'n credu bod arno angen unrhyw gymorth, hyd at gynnal asesiad gan wasanaethau gofal cymdeithasol,

16:06

atgyfeirio i'r darparwr er mwyn darparu cymorth a gwasanaethau, gorfod cwblhau adroddiad risg ar gyfer oedolyn

16:15

oherwydd pryderon bod yr unigolyn yn wynebu neu'n profi risg o gam-drin neu esgeuluso.

16:20

Mae'n bwysig iawn cydnabod bod llesiant yn golygu gwahanol bethau i wahanol bobl ar adegau gwahanol.

16:27

Ac er y dylem sicrhau ein bod yn edrych ar lesiant oedolion mewn ffordd gyfannol,

16:32

ni ddylem fynnu ein bod yn rhoi sylw i bob un o'r cylchoedd a chasglu gwybodaeth ar gyfer pob un ohonynt

16:39

oherwydd ni fyddant i gyd yn berthnasol neu'n ystyrlon neu'n bwysig i'r unigolyn ym mhob achos.

16:45

Weithiau byddwn yn defnyddio term cyffredinol. Ond y cwestiwn pwysig yw, os ydym o ddifrif am weithredu

16:53

mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn mewn perthynas â'r plentyn neu'r oedolyn,

16:59

a oes angen wedyn i ni dreiddio ymhellach er mwyn deall beth yw union

ystyr y term cyffredinol hwnnw i'r unigolyn?

17:06

Wrth ymarfer, un o'r cwestiynau allweddol i'w ofyn gan bawb yw 'felly beth...'? Er enghraifft, byddwn yn aml yn clywed mai beth sy'n wirioneddol bwysig i Mrs Jones

17:16

yw bod ei hannibyniaeth yn cael ei hyrwyddo neu ei chynnal. Bydd gan bawb farn wahanol am beth mae annibyniaeth yn ei golygu i Mrs Jones

17:24

a beth sy'n digwydd wrth ddefnyddio term cyffredinol fel hwnnw yw y byddwn ni'n aml yn syrthio i'r fagl o ffurfio rhagdybiaethau

17:33

os ydym yn credu ein bod yn gwybod beth mae hynny'n ei olygu heb ofyn y cwestiwn 'felly beth...'.

17:39

Wrth dreiddio ymhellach byddwn yn gofyn "felly beth...mae annibyniaeth yn ei golygu i Mrs Jones?

17:45

Sut mae hi'n gweld annibyniaeth? Sut bydd hi'n teimlo os bydd yr agweddau ar ei hannibyniaeth y mae'n eu nodi yn cael eu hyrwyddo?"

17:52

Un enghraifft arall o dermau cyffredinol sy'n cael eu defnyddio yw 'Mae Mr Smith ag angen cymorth gyda'i ofal personol'.

18:01

Ond beth yw gofal personol? Mae gofal personol yn gallu golygu rhywbeth gwahanol i bob unigolyn.

18:08

Rhaid i ni ofyn y cwestiwn 'felly beth?' er mwyn cael gwybod beth yw'r anghenion gofal personol sy'n bwysig i'r unigolyn hwnnw.

18:17

Bydd anghenion gofal personol yn cael eu dynodi gan yr ymarferydd ac aelodau o'r teulu,

18:23

ond a ydynt yr un fath â beth fyddai'r unigolyn yn ei ddweud. Po bellaf y byddaf yn treiddio, mwyaf fydd fy ngallu i deilwra'r cymorth ar gyfer yr unigolyn.

18:33

Ar y sgrin nawr, gallwch weld y diffiniad o lesiant ar gyfer plant. Mae'n debyg iawn i'r diffiniad o lesiant ar gyfer oedolion

18:42

gan ei fod yn dechrau gyda llesiant corfforol, meddyliol ac emosiynol ac yn mynd yn glocwedd nes cyrraedd addasrwydd llety byw.

18:51

Y ddwy agwedd olaf yw'r rheini sy'n wahanol i'r diffiniad o lesiant ar gyfer oedolion

18:57

gan fod dyletswydd arnom o hyd i hyrwyddo lles a datblygiad plant o dan Ddeddf Plant 1989.

19:05

Un o'r pethau i'w ystyried yw'r angen i geisio rhoi'r gorau i'r defnydd o dermau cyffredinol wrth siarad am unigolion,

19:13

boed hynny mewn trafodaethau neu asesiadau. Rydym yn tueddu i syrthio i'r fagl o ddefnyddio llawer jargon generig.

19:22

Rhai o'r dywediadau cyffredinol y byddwn yn eu clywed am blant yw "er mwyn i'r unigolyn gael ei gadw'n ddiogel, er mwyn i'r plentyn fod yn hapus."

19:34

Mae'r hyn sy'n gwneud plant yn hapus yn amrywio rhwng y naill blentyn a'r llall.

19:39

Felly gofynnwch y cwestiwn 'felly beth?'. Felly beth sy'n gwneud y plentyn hwn yn hapus?

19:45

Sut bydd y plentyn hwn yn teimlo pan fydd y pethau hynny'n digwydd?

19:52

Un gweithgarwch y gallech ei wneud ar eich pen eich hun neu mewn grŵp yw meddwl beth mae llesiant yn ei olygu i chi fel unigolyn.

20:02

Yn gyntaf oll, meddyliwch am y geiriau y byddech yn eu defnyddio i ddisgrifio llesiant.

20:08

Gallech wneud nodyn ohonynt neu ofyn i rywun arall wneud hynny. Wedyn cymerwch gam yn ôl a gofyn i chi'ch hun/eich gilydd,

20:17

beth mae'n ei olygu go iawn, heb ddefnyddio jargon generig? Ydych chi wedi defnyddio geiriau y byddwn yn eu defnyddio'n gyffredinol wrth ymarfer,

20:27

neu ydych chi wedi disgrifio beth sy'n bwysig i chi go iawn? Felly os ydych yn gwneud y gweithgarwch hwn mewn grŵp a rhywun,

20:35

er enghraifft, yn dweud beth sy'n bwysig i mi, beth mae llesiant yn ei olygu i mi, yw 'iechyd corfforol da',

20:43

bydd gweddill y grŵp yn cael eu hannog i ofyn y cwestiynau 'felly beth?' -

20:48

'Felly beth mae iechyd corfforol yn ei olygu i chi? Sut rydych chi'n gweld

hynny?

20:53

Sut mae'n gwneud i chi deimlo?' Heriwch eich hun neu heriwch eich gilydd drwy ofyn y cwestiwn, 'felly beth?'

21:03

er mwyn gallu treiddio'n ddyfnach a meddwl beth mae hyn yn ei olygu.

21:08

Mae bron yr un peth â gofyn beth sy'n eich gwneud yn unigryw, beth sy'n eich gwneud yn unigolyn,

21:16

sut mae'ch meddwl yn gweithio, beth sy'n gwneud i chi wenu o gymharu â beth sy'n gwneud i bawb arall wenu.

21:24

Mae'n amser am egwyl byr nawr. Felly rydym wedi ystyried pa fath o beth yw llesiant a beth mae'n ei olygu,

21:33

ond mae hefyd yn bwysig i ni ystyried yr egwyddorion sydd yn y ddwy ddeddf hyn

21:39

sydd, yn y bôn, yn sail i'r ymarfer a'r dull o weithredu y dylem eu defnyddio i gynorthwyo unigolion.

21:48

Beth sydd ar y sgrin yw'r egwyddorion craidd, ond byddai'n well gen i eu galw'n sylfeini ar gyfer ymarfer.

21:56

Rhaid i ni gofio bod y rhain weithiau'n gallu troi'n flychau ticio ar ffurflenni.

22:02

Dyma'r termau sy'n cael eu defnyddio drwy'r amser, ond pan fyddwn yn camu'n ôl,

22:08

a fyddwn yn manteisio ar y cyfle i ddisgrifio beth mae hyn yn ei olygu wrth ymarfer?

22:14

A fyddwn yn disgrifio beth mae'n ei olygu drwy lygaid yr unigolyn? A fyddwn yn disgrifio beth mae'n ei olygu drwy lygaid yr aelod staff, er enghraifft?

22:25

Mae'n bwysig iawn ein bod yn gallu cymryd pob un o'r egwyddorion hyn a'u trosi i beth maent yn ei olygu wrth ymarfer.

22:33

Felly os ydych yn gyfrifol am arwain ar ansawdd yn eich sefydliad, er enghraifft,

22:39

gallech fod am ystyried y rhain fel rhyw ffordd i fesur ansawdd,

22:44

nid mewn ystyr biwrocraidd, ond yn fwy yn nhermau'r ffaith bod y rhain yn agweddau ar ansawdd ein dull o gynorthwyo unigolion.

22:54

Felly cymerwn bob un yn ei dro a gofyn beth mae'n ei olygu. Gadewch i ni gymryd dewis a rheolaeth yn gyntaf.

23:04

Byddaf am glywed beth yw syniadau, barn, dymuniadau a phrofiadau'r unigolyn gymaint â phosibl.

23:11

Rydym am allu hyrwyddo dewis a rheolaeth. Nid yw hyn yn bosibl bob tro,

23:18

ond nid yw hynny'n golygu na ddylem wneud ymdrech i'w gyflawni. Bydd achosion lle nad yw unigolion yn gallu rhannu eu llais mewn geiriau.

23:28

Ac rydw i'n meddwl ei bod yn hanfodol i ni newid y pwyslais wrth feddwl pam mae hyn yn bwysig oherwydd beth rydym am ei wneud wrth hyrwyddo llais, 23:40

dewis a rheolaeth yw cael dealltwriaeth o ba fath o fywyd sydd gan yr unigolyn.

23:47

Sut mae'n teimlo? Sut mae am fyw ei fywyd? Os yw'r unigolyn yn gallu cyfleu hyn yn eiriol, gorau oll.

23:56

Ond gellir cael adegau pan fyddwn yn dibynnu ar bobl eraill er mwyn gallu rhannu'r mewnwediadau hynny,

24:05

rhai fel brodyr a chwirydd, rhieni, neiniau a theidiau, gofalwyr, cymdogion, ffrindiau, ac efallai ymarferwyr eraill.

24:15

Ond beth sy'n bwysig, wrth dynnu ar ein harsylwadau o'r unigolyn, wrth dynnu ar y mewnbwn gan unigolion eraill,

24:23

yw ein bod yn sicrhau ein bod yn meddwl am yr unigolyn drwy'r amser

24:28

yn hytrach na beth mae pobl eraill yn ei ddweud am eu teimladau eu hunain.

24:33

Er enghraifft, gallent deimlo'n euog am nad ydynt yn gallu cynorthwyo'r unigolyn fel y byddent yn dymuno;

24:41

gallent ddweud beth maen nhw'n meddwl sydd ei angen ar yr unigolyn. Felly lle rydym yn tynnu ar arsylwadau am ymddygiad, terminoleg, iaith, iaith y corff, er enghraifft,

24:53

mae'r arsylwadau hynny yr un mor bwysig â'r geiriau y mae rhywun yn eu cyfleu i ni

25:00

wrth i ni dynnu ar y mewnbwn gan bobl eraill. A'r mewnwelediad hwnnw i fywyd yr unigolyn:

25:08

rhaid i ni sicrhau eu bod yn siarad am yr unigolyn ei hun.

25:13

Gyda golwg ar gydgynhyrchu, mae hynny'n cael ei ddisgrifio'n aml drwy ddweud, "rydym yn gweithio mewn partneriaeth â phobl"

25:23

ond mae cydgynhyrchu'n ymwneud mewn gwirionedd â cheisio lleihau'r anghydbwysedd grym

25:30

a geir weithiau rhwng ymarferwyr ac unigolion. Ac os ystyriwch beth yw ein rôl ni,

25:37

ein rôl ni yw deall pa fath o fywyd sydd gan yr unigolyn er mwyn nodi a oes ganddo unrhyw anghenion am ofal a chymorth,

25:47

beth yw ei ganlyniadau arfaethedig, beth sy'n bwysig iddo, a pha risgiau sydd wedi'u nodi yn achos yr unigolyn hwnnw.

25:57

Wedyn, o ran y ffordd y mae hynny'n trosi i ymarfer, mae fel pe bawn yn ysgrifennu asesiad:

26:04

dylwn weld tystiolaeth ym mhob dim fod yr asesiad yn fath o sgwrs rhwng dau.

26:10

Dylid datblygu'r cynllun personol gyda'r unigolyn neu ei gynrychiolydd.

26:16

Nid yw'n fater o ddweud ein bod wedi cael sgwrs fach braf â chi ac felly y byddwn yn mynd ati nawr i ysgrifennu'r cynllun.

26:25

Mae'r cynllun yn ymwneud â'r ffordd y bydd yr unigolyn hwnnw'n cael ei gynorthwyo yn ei fywyd pob dydd

26:31

felly dylid galluogi'r unigolyn hwnnw i gyfrannu at ffurfio'r cynllun hwnnw i'r graddau mwyaf posibl.

26:39

Byddwn yn sôn am ddulliau seiliedig ar gryfderau yn ystod gweddill y sesiwn.

26:44

Mae hyn yn fwy na mater o ysgrifennu'r pethau da neu'r pethau neis am yr unigolyn.

26:49

Mae gwahaniaeth rhwng dweud bod blwch ar y ffurflen lle gallwn ddisgrifio cryfderau

26:56

a dweud ein bod yn mabwysiadu dull seiliedig ar gryfderau. Wrth nodi cryfderau'r plentyn neu oedolyn hwnnw,

27:05

mae'n bwysig iawn bod y cyswllt hwn yn cyrraedd y pwynt hwnnw, fel bod ystyr a phwrpas iddo.

27:12

Does dim pwynt mewn ysgrifennu mewn blwch rywle ar y ffurflen o dan y pennawd 'cryfderau'

27:18

fod Betty yn dal i allu gyrru car yn 87 oed os byddwch wedyn yn cael sgwrs

gyda Betty ac yn gofyn, "Pryd wnaethoch chi yrru car ddiwethaf, Betty?"

27:27

a hithau'n ateb, "Ddim ers blwyddyn neu ddwy gan fy mod i wedi colli pob hyder a go brin y byddaf i'n gyrru car eto."

27:37

Nid enwi'r pethau sy'n gweithio'n dda i'r unigolyn y byddaf i, ond meddwl am y ffordd rydym yn defnyddio'r rheini i ddatblygu'r cynllun ar gyfer yr unigolyn.

27:47

Byddai defnyddio dull seiliedig ar gryfderau yn golygu datblygu cynlluniau personol

27:53

sy'n ategu cryfderau'r unigolyn, y pethau y mae'n gallu eu gwneud drosto'i hun,

27:59

y pethau y mae pobl eraill yn gallu ei helpu i'w gwneud. Ni ddylai'r cynllun gael ei seilio ar y pethau nad yw'r unigolyn yn gallu eu gwneud

28:08

neu'r pethau y mae arno angen help i'w gwneud. Drwy wneud defnydd da o ddull seiliedig ar gryfderau,

28:15

bydd gen i gynllun sy'n ategu ac yn adeiladu ar sail cryfderau'r unigolyn.

28:21

Wrth sôn am ganolbwyntio ar ganlyniadau, rydym yn sôn yn y bôn am beth sy'n bwysig i'r unigolyn.

28:28

Beth sy'n gwneud iddo wenu? Beth sy'n gwneud iddo deimlo'n fodlon? Beth sy'n rhoi pwrpas iddo, yn gwneud iddo deimlo ei fod yn unigryw?

28:38

Mae gwahaniaeth rhwng dweud bod rhywbeth yn bwysig iawn i mi a dweud mai dyma sydd orau gen i o ran y ffordd i ddiwallu fy anghenion.

28:47

Felly pan fydd rhywun yn dweud ei bod yn well ganddo gawod yn hytrach na bath,

28:52

dyna'r flaenoriaeth o ran y ffordd i ddiwallu'r anghenion gofal personol.

28:58

Mae hynny'n wahanol iawn i'w glywed yn dweud "Rydw i am allu eistedd yn yr ardd ac edrych ar y goeden a blannodd fy ngŵr ar ôl i ni briodi,

29:07

gan ei bod yn rhywbeth arbennig iawn i mi": mae hynny'n rhywbeth sy'n unigryw i'r unigolyn.

29:14

Mae cymryd risgiau cadarnhaol yn rhywbeth sy'n digwydd yn amlach nag rydym yn tybio,

29:19

yn ôl pob tebyg. Y cwestiwn yw, a ydym yn dweud yn benodol ein bod o blaid cymryd risgiau cadarnhaol?

29:28

Mae elfen o risg ym mywyd pawb. A beth sydd angen ei ystyried yw cydestun yr holl egwyddorion eraill rydych yn eu gweld ar y sgrin,

29:38

oherwydd does dim modd eu hystyried ar wahân i'w gilydd. Ond wrth feddwl am gymryd risgiau cadarnhaol,

29:46

rydym yn ystyried beth mae'r unigolyn yn ei ddweud wrthym am y profiad bywyd y byddai'n dymuno ei gael o ddydd i ddydd.

29:54

Lle roeddem wedi nodi bod cryfderau gan yr unigolyn, a oes pethau y mae'n gallu eu gwneud drosto'i hun

30:02

neu y mae pobl eraill yn gallu ei helpu i'w gwneud. Ydyn ni'n gwneud gormod dros rywun?

30:07

Ydyn ni'n rhoi gormod o wasanaeth neu a ydym yn rheoli agweddau ar ei fywyd pob dydd yn rhy fanwl heb fod angen gwneud hynny?

30:16

Y peth allweddol yw sut byddwn wedyn yn egluro, yn magu hyder ac yn rhannu â'n gilydd mai ein bwriad yw hyrwyddo'r arfer o gymryd risgiau

30:27

er mwyn rhoi'r bywyd mwyaf bodlon posibl i'r plentyn neu oedolyn hwnnw.

30:34

Y peth allweddol wrth gymryd risgiau cadarnhaol yw bod pawb ohonom yn deall y risgiau,

30:39

yn deall tebygolrwydd y risgiau hynny, effaith y risgiau rydym yn eu rhannu,

30:45

y dull o reoli'r risgiau hynny drwy gynllunio, a'n bod yn cydasesu hynny ac yn mesur yr effaith ar brofiad yr unigolyn i weld a yw'n gymesur.

30:56

Dyma lle mae angen i ni feddwl ynghylch faint rydym yn ei wneud ac y byddwn yn ei wneud ar gyfer y plentyn neu oedolyn.

31:05

Gyda golwg ar fod yn gymesur, byddaf yn gweld rhai cynlluniau

31:10

sy'n fanwl dros ben o ran disgrifio bron pob symudiad gan yr unigolyn o ddydd i ddydd.

31:16

Rhaid i ni gofio bod plant ac oedolion yn derbyn gwasanaethau gofal a chymorth

31:21

gan ddarparwyr am fod ganddynt anghenion penodol sydd wedi'u dynodi,

31:27

am fod risgiau wedi'u dynodi mewn perthynas â'r unigolyn, a'r unigolyn wedi dweud wrthym beth sy'n bwysig iddo.

31:35

A dylem gynllunio dull o weithredu sy'n ymateb i'r tri maes hyn.

31:40

Mae angen i ni adael hyblygrwydd i'r unigolyn ddewis, newid ei feddwl,

31:46

gwneud rhywbeth gwahanol o ddydd i ddydd os yw'n bosibl. Felly mae'n ymwneud â faint fyddwn yn ei wneud yn y pen draw ar gyfer yr unigolyn

31:56

yn hytrach na gyda'r unigolyn, neu hyd yn oed gadael i'r unigolyn wneud rhai o'r pethau drosto'i hun.

32:05

Mae'n amser am egwyl byr nawr.

32:13

Byddwn yn rhoi ychydig o sylw nawr i ymarfer drwy weithio gyda phobl mewn ffordd seiliedig ar gryfderau.

32:21

Ond mae'n bwysig sylweddoli bod hyn yn ymwneud â'r dull o weithredu sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

32:27

Mae'n golygu sicrhau ein bod yn deall yr unigolyn sydd ar ganol yr holl weithgarwch.

32:34

Dyma'r pwynt o godwyd o'r blaen yn y gweithgarwch ar lesiant, sef treiddio'n ddyfnach,

32:41

gofyn y cwestiynau 'felly beth?', a deall yn iawn beth mae hyn yn ei olygu i'r unigolyn.

32:49

Wrth ystyried y rheoliadau a'r canllawiau statudol o dan RISCA,

32:55

mae'n ddiddorol iawn mapio'r camau ar daith yr unigolyn o'r pwynt y mae'r darparwr yn cael yr atgyfeiriad

33:03

hyd at derfynu unrhyw ymyriad neu ddarpariaeth. Ac unwaith eto,

33:09

bydd hynny'n amrywio yn ôl amgylchiadau'r unigolyn. Mae'n bosibl y bydd y ddarpariaeth wedi'i rhoi ar waith am gyfnod penodol.

33:19

Mae'n bosibl y bydd anghenion yr unigolyn wedi cynyddu fel bod arno angen math gwahanol o gymorth

33:27

neu mae'n bosibl y bydd yr unigolyn wedi marw ac nad oes angen y gwasanaeth bellach ar gyfer yr unigolyn hwnnw.

33:36

Ond y peth pwysig i'w ystyried yw sut byddwn yn sicrhau bod pawb yn deall pob cam o'r daith,

33:43

yn deall beth yw ansawdd ar bob un o'r camau hyn ac yn deall pam rydym yn hyrwyddo dull o weithredu sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn

33:52

ac yn seiliedig ar gryfderau ar bob un o'r camau hynny ar daith yr unigolyn yn y gwasanaeth.

34:01

Gan ddechrau â'r atgyfeiriad (a allai fod yn hunanatgyfeiriad,

34:07

yn un gan wasanaeth iechyd, neu'n un gan wasanaeth gofal cymdeithasol),

34:12

y peth pwysig yw eich bod chi fel darparwr, drwy'r atgyfeiriad hwnnw,

34:18

yn casglu cymaint o wybodaeth â phosibl er mwyn cael dealltwriaeth o fywyd yr unigolyn.

34:25

Mae'n bwysig cofio, pan ddaw'r atgyfeiriad a phan fydd y darparwr yn dechrau cynnal ei asesiad

34:32

o addasrwydd yn unol â'r rheoliadau, fod rhaid i ni gysylltu hynny â'r datganiad o ddiben.

34:40

Felly gyda'r atgyfeiriad oddi wrth y person sy'n comisiynu'r gwasanaeth,

34:45

dylid cael cynllun gofal a chymorth ac, efallai, asesiad.

34:51

Ond gorau po fwyaf o wybodaeth y gallwch ei chasglu ar y cam hwnnw

34:56

am yr unigolyn er mwyn cynnal yr asesiad o addasrwydd. Bydd hynny'n caniatáu i chi wirio,

35:04

ar sail y datganiad o ddiben, fod yr hyn y gofynnwyd i chi ei wneud yn gyson â beth rydych wedi datgan eich bod yn ei ddarparu fel darparwr.

35:15

Mae hefyd yn gyfle i chi feddwl am baru. Gallai fod yn fater o baru aelod staff i gynorthwyo'r unigolyn.

35:23

Gallai fod yn fater o baru'r unigolyn â'r bobl eraill sydd eisoes yn derbyn y gwasanaeth.

35:30

Os penderfynir eich bod chi fel darparwr yn gallu darparu cymorth i'r unigolyn,

35:36

bydd yn ofynnol i chi ddarparu Llawlyfr Gwybodaeth y Gwasanaeth. Mae'r rheoliadau a'r canllawiau statudol

35:44

yn dweud beth yn union i'w gynnwys yn Llawlyfr Gwybodaeth y Gwasanaeth

35:49

ond mae'n bwysig iawn eich bod chi fel darparwr yn aros ac yn meddwl o ddifrif

35:55

ar gyfer pwy y mae'r llawlyfr hwn. Edrychwch eto ar y llawlyfr hwnnw a chwiliwch am y jargon, y termau generig.

36:04

Ewch yn ôl at y llawlyfr hwnnw a'i ddarllen fel pe baech yn blentyn

36:09

neu'n oedolyn sy'n dod i'r lleoliad neu'n derbyn y gwasanaeth am y tro cyntaf.

36:15

Pa wahaniaeth rydym yn ei wneud ym mywyd yr unigolyn? Ydych chi'n deall beth sydd yn y llawlyfr hwnnw?

36:22

Ydy'r llawlyfr yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch? Rhai o'r llawlyfrau gorau rydw i wedi'u gweld

36:29

yw'r rheini sydd wedi'u datblygu gyda'r unigolion sy'n derbyn y cymorth

36:34

gan y sefydliad mewn cartrefi plant preswyl. Rydw i wedi gweld plant a staff yn cynhyrchu fersiwn o Lawlyfr Gwybodaeth y Gwasanaeth ar ffurf DVD.

36:46

Byddwch yn cael barn y staff am y math o fywyd sydd yn y cartref, ond mae'r plant a phobl ifanc hefyd yn cyfrannu at y math o fywyd sydd yn y cartref hwnnw.

36:57

Rydw i wedi gweld enghreifftiau lle mae darparwyr wedi gofyn i'r staff gerdded allan o'r adeilad

37:03

a sefyll wrth y gât ffrynt, gan edrych yn ôl ar y cartref, a disgrifio beth maent yn ei weld.

37:10

Yn disgrifio sut maent yn teimlo wrth gerdded i lawr y llwybr. Pa fath o deimlad yw hwnnw?

37:17

Pa fath o deimlad yw mynd drwy'r drws ffrynt? Beth fyddwch yn ei weld, yn ei arogleuo, yn ei glywed?

37:25

Felly dyna'r llawlyfrau gwybodaeth. Rhaid iddynt gwrdd â gofynion y ddeddfwriaeth.

37:31

Mae hefyd yn bwysig ystyried a yw'r llawlyfr yn darparu'r wybodaeth y mae'r unigolyn am ei chael.

37:38

Gofynnwch i bobl sy'n derbyn eich gwasanaeth yn barod, a phobl sydd wedi gadael y gwasanaeth,

37:43

a oeddent wedi cael y wybodaeth a oedd yn bwysig iddynt o'r llawlyfr.

Wedyn byddwn yn llofnodi'r cytundeb gwasanaeth ac yna datblygu'r cynllun personol ar gyfer yr unigolyn.

37:56

Nawr, mae angen i'r cynllun personol fod ar gael cyn y diwrnod cyntaf y bydd yr unigolyn yn y lleoliad.

38:04

Dylai gael ei seilio'n bennaf ar wybodaeth a ddarparwyd gan wasanaethau gofal cymdeithasol.

38:10

Ond mae'n bwysig iawn i ni ddechrau ystyried egwyddorion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant,

38:16

nid yn unig yr egwyddorion sy'n sail i RISCA, wrth ddatblygu'r cynlluniau.

38:22

Felly a ydynt yn dangos tystiolaeth o lais, dewis a rheolaeth yr unigolyn?

38:29

Lle mae hynny'n briodol? Lle mae'n bosibl? A yw'r cynllun wedi'i gydgyhyrchu gyda'r unigolyn?

38:36

A yw'n seiliedig ar gryfderau? A yw'n canolbwyntio ar ganlyniadau?

38:41

A yw'n hyrwyddo'r arfer o gymryd risgiau cadarnhaol? Efallai ei bod yn rhy gynnar ar hyn o bryd i edrych yn fanwl ar y maes hwnnw,

38:50

ond dyma pam rydych yn gweld y camau nesaf yn y broses. A yw'n gymesur?

38:55

Dydyn ni ddim yn adnabod yr unigolyn yn dda iawn ar hyn o bryd am nad yw wedi cyrraedd y lleoliad hyd yn oed neu ddechrau derbyn y gwasanaeth.

39:06

Wedyn mae'r unigolyn yn dechrau derbyn y gwasanaeth. Fel darparwr, mae'n ofynnol i chi gynnal asesiad darparwr.

39:13

Unwaith eto, mae'r un set o egwyddorion yn gymwys wrth i'r unigolyn ddechrau derbyn y gwasanaeth

39:20

neu ymgynefino â'r lleoliad newydd lle bydd yn byw.

39:26

Bydd staff yn y lleoliad yn meithrin perthynas â'r unigolion ac yn ennill eu hymddiriedaeth

39:33

wrth iddynt ddod yn fwy cyfforddus â'u sefyllfa a'u trefniadau byw efallai.

39:38

Dyna pam mae'n bwysig iawn bod y cynllun personol hwnnw'n cael ei adolygu wedyn

39:44

ar ôl y saith diwrnod cyntaf ar sail yr egwyddorion rydym newydd eu disgrifio.

39:50

Ond byddwch yn gwneud hynny ochr yn ochr â'r plentyn neu'r oedolyn a fydd bellach wedi cael gwell syniad o'r hyn sy'n digwydd o'i amgylch.

39:58

Bydd cofnodion dyddiol ac wythnosol yn cael eu cadw, a bydd staff yn cael

eu goruchwylio.

40:05

Ac unwaith eto, un o'r pethau pwysicaf i'w hystyried wrth ddarparu'r gwasanaeth

40:10

neu wrth adolygu cynlluniau personol yw y gall fod yn hawdd iawn mynd i'r arfer o fonitro a mesur y gweithgarwch sy'n cael ei ddarparu.

40:20

Maent yn cael y gofal sydd ei angen arnynt, maent yn cael y gwasanaeth sydd ei angen arnynt,

40:26

maent yn cael cyfleoedd i wneud beth sy'n bwysig iddynt, ond un o'r cwestiynau sy'n cael ei anghofio'n aml

40:33

yw "Pa effaith rydym yn ei chael ar fywyd yr unigolyn o ddydd i ddydd?" Felly yn y cofnodion wythnosol neu ddyddiol hynny, yn y sesiynau goruchwylio,

40:43

wrth adolygu'r cynlluniau sydd ar waith, yn ogystal â sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth,

40:51

dylem sicrhau ein bod yn cyflawni beth rydym wedi'i nodi yn y cynllun

40:56

a'n bod yn ystyried yr effaith a pha wahaniaeth rydym yn ei wneud ym mywyd yr unigolyn.

41:02

Dyma egluro cyd-destun y berthynas rhwng y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant a RISCA.

41:11

Roedd y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant wedi cyflwyno model

asesu y gallwch ei weld ar y sgrin nawr, sef y pum cylch ar yr ochr chwith.

41:23

Mae llawer o'r asesiadau mewn gofal cymdeithasol yn cael eu galw'n sgysiau beth sy'n bwysig neu'n asesiadau beth sy'n bwysig.

41:32

Os ydych wedi clywed cyfeirio at 'beth sy'n bwysig', yr hyn mae'n ei olygu yn y bôn yw asesiad o'r unigolyn.

41:39

A'r hyn a ddylai ddigwydd drwy'r broses asesu yw canfod beth yw amgylchiadau personol yr unigolyn,

41:47

beth yw canlyniadau arfaethedig yr unigolyn, hynny yw, beth mae'n ei ddweud sy'n bwysig iddo.

41:55

Ond dydw i ddim am roi gweddill y model mewn blychau ar wahân: rydw i am ddangos y cysylltiadau rhyngddynt.

42:03

Felly pan fydd unigolyn yn dweud mai'r rhain yw'r pethau sy'n wirioneddol bwysig iddo,

42:10

dyma sut rydw i am fod, yn y sgwrs am beth sy'n bwysig, byddwn yn defnyddio'r dull asesu wedyn

42:17

i ystyried beth sy'n rhwystro'r canlyniadau arfaethedig hynny ar hyn o bryd.

42:24

Pam nad ydych yn gallu gwneud y pethau rydych yn eu disgrifio (rhwystrau)?

42:29

Wedyn ystyrir faint o'r pethau hyn y byddwch yn gallu eu gwneud eich hun.

42:34

Pwy arall fydd yn gallu'ch helpu? Beth sydd ar gael i chi yn y gymuned?

42:40

Wedyn byddwn yn ystyried y risgiau a fydd yn codi os nad yw'r unigolyn yn gallu gwneud y pethau sy'n bwysig iddo,

42:47

os nad yw'n gallu teimlo fel y mae am deimlo. Dyna beth fyddaf am edrych arno ac am ei ganfod drwy'r asesiad gofal a chymorth.

42:59

Ac i'r un graddau, mae angen canfod beth yw anghenion gofal a chymorth yr unigolyn.

43:05

Mae'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant wedi cyflwyno meini prawf cymhwysra sydd wedi'u seilio nawr ar anghenion gofal a chymorth yr unigolyn.

43:17

Felly drwy'r asesiad hwnnw, byddaf nid yn unig yn dynodi canlyniadau arfaethedig yr unigolyn

43:24

ond hefyd yn ceisio canfod beth yw anghenion gofal a chymorth yr unigolyn,

43:29

a gallaf ddefnyddio'r model yn yr un ffordd ag ar gyfer canfod y canlyniadau arfaethedig

43:36

- byddaf yn dynodi'r anghenion gofal a chymorth ac yn edrych wedyn gyda'r unigolyn a'r rheini sydd o'i amgylch

43:43

i weld beth sy'n rhwystro'r anghenion hynny rhag cael eu diwallu. I ba raddau mae'n gallu diwallu'r anghenion hynny ei hun?

43:52

Pwy sy'n gallu ei helpu? Beth sydd ar gael iddo yn y gymuned i ddiwallu'r angen?

43:59

Pa risg fydd yn codi os nad yw'r angen yn cael ei ddiwallu? Mae'r holl wybodaeth hon yn sail i'r penderfyniadau ynghylch cymhwysra.

44:09

Os nodir bod angen cymwys am ofal a chymorth gan yr unigolyn, bydd hwnnw'n cael ei droi wedyn yn gynllun gofal a chymorth ar gyfer yr unigolyn.

44:20

Mae'r blwch ar yr ochr dde yn ddisgrifiad lefel uchel o beth mae angen ei gynnwys yn y cynllun gofal a chymorth.

44:26

Dyma beth sy'n cael ei drosglwyddo i'r darparwyr wedyn. Fel rydym newydd weld,

44:33

mae'r dull o weithredu sydd newydd ei ddisgrifio, sef nodi'r canlyniadau arfaethedig,

44:39

nodi'r anghenion gofal a chymorth, edrych ar hyn gyda'r unigolyn a'r rheini sydd o'i amgylch,

44:45

beth sy'n eu rhwystro, pa risg sy'n codi os na fydd canlyniadau'n cael eu cyflawni,

44:52

yn ddull o weithredu y gall darparwyr ei ddefnyddio yr un modd wrth wneud eu hasesiadau ac wrth ffurfio cynlluniau.

45:01

Unwaith y bydd y darparwr yn derbyn y cynllun gofal a chymorth, bydd y dyletswyddau o dan RISCA yn dod i rym

45:10

mewn perthynas â chynnal asesiadau a datblygu'r cynllun personol.

45:16

Mae RISCA yn dweud yn glir fod angen i'r cynllun personol gynnwys canlyniadau personol yr unigolyn,

45:24

dealltwriaeth o'i anghenion gofal a chymorth, beth yw ei ddewisiadau personol o ran diwallu ei anghenion a chyflawni ei ganlyniadau personol,

45:35

beth yw'r risgiau neu heriau a nodwyd ar gyfer yr unigolyn ac a oes angen ystyried asesiadau arbenigol sydd wedi'u cynnal neu sydd angen eu cynnal.

45:48

Meddyliwch amdano fel cynllun gofal a chymorth sy'n disgrifio yn syml beth sydd i ddigwydd a pham,

45:55

ond bod y cynllun personol yn mynd gam ymhellach drwy ddisgrifio'n fanwl sut byddwn yn gallu cyflawni hyn.

46:04

Yn y blwch llwyd mae crynodeb o beth fydd yn cael ei gynnwys wedyn yn y cynllun personol ar gyfer yr unigolyn.

46:12

Rhaid cofio'r egwyddorion a ddisgrifiwyd yn gynharach a'u gwneud yn sail i'r dull o ddatblygu'r cynlluniau.

46:23

Er bod y sleid hon yn ymddangos yn eithaf cymhleth, mae'n dangos yn union beth sydd angen ei gofnodi drwy'r asesiad a'r broses cynllunio.

46:34

Y geiriau a glywn yn aml wrth ymarfer yw 'eisiau' ac 'angen';

46:40

yn cael eu mynegi gan bawb sydd o amgylch yr unigolyn, ac weithiau byddai'r unigolyn yn gallu defnyddio'r geiriau hynny,

46:47

er enghraifft 'Dyma beth rydw i eisiau i chi ei wneud. Beth mae angen i chi ei roi i mi yw...

46:53

Beth mae angen i chi ei wneud ar gyfer fy mam yw... Beth rydyn ni ei eisiau yw i chi alw heibio bedair gwaith y diwrnod i ddarparu gofal.

47:02

Rydyn ni eisiau i chi stopio'r plentyn rhag bod yn agored i berygl. Beth mae angen i chi ei wneud yw rhoi lleoliad sefydlog i'r plentyn'.

47:11

Yn eithaf aml, mae'r geiriau 'eisiau' ac 'angen' wedi'u defnyddio i ddisgrifio gwasanaethau,

47:17

gweithgareddau, ymyriadau, pethau sy'n cael eu gwneud 'ar gyfer' yr unigolyn.

47:23

Ond beth mae angen i ni ei ddeall a'i ddisgrifio yw anghenion gwirioneddol yr unigolyn am ofal a chymorth

47:31

ac nid yr angen am wasanaeth neu ymyriad penodol.

47:36

Dyma lle mae'r jargon am anghenion gofal a chymorth yn codi. Er enghraifft, dywedir bod 'anghenion gan y person mewn perthynas â'i ofal personol'

47:46

neu 'bod angen help ar y person gyda'i feddyginiaeth' neu 'mae angen cymorth ar y person i allu cymdeithasu'

47:53

- byddwn yn mynd i'r arfer o ddisgrifio beth rydym yn credu sydd angen ei ddarparu.

47:59

Yn lle hynny, mae'n fwy defnyddiol o lawer i ni ddisgrifio anghenion gofal a chymorth

48:05

drwy egluro pam mae ar yr unigolyn angen rhywbeth yn y lle cyntaf. Felly, wrth ddisgrifio anghenion gofal a chymorth,

48:13

peidiwch â meddwl am beth sydd ar yr unigolyn ei angen ond yn hytrach pam mae arno angen rhywbeth.

48:19

Er enghraifft, os ydym yn cofnodi bod ar rywun angen help gyda'i ofal personol,

48:26

dylem nodi beth yw'r gofal personol sydd ei angen a pham mae ei angen.

48:31

Ai am fod yr unigolyn wedi cael UTI o'r blaen fel bod angen i ni sicrhau ei fod yn lân ac yn cael ei gadw'n lân.

48:40

Ai am ei fod yn dueddol i gael briwiau pwyso fel bod angen i ni ei gadw'n lân.

48:46

A yw'r angen gofal a chymorth yn ymwneud â rheoli ei anghenion emosiynol, ei helpu i hunanreoli o ganlyniad i drawma y mae wedi'i brofi o'r blaen.

48:58

A yw ei angen am gymorth gyda meddyginiaeth yn ymwneud â'r ffaith nad yw'n gallu symud ei fysedd yn ddigon deheuig i dynnu tabledi o becynnau poteli plastig

49:09

neu am ei fod yn anghofio cymryd y feddyginiaeth oherwydd problemau cof?
Felly mae anghenion gofal a chymorth yn disgrifio'r rheswm dros yr angen
am y cymorth

49:19

yn hytrach na pha gymorth sydd ei angen. A rhaid i ni gyfuno hynny â beth
sy'n bwysig i'r unigolyn,

49:27

beth yw'r canlyniadau y mae'n dweud sy'n bwysig iddo a beth yw'r risgiau a
nodwyd mewn perthynas â'r unigolyn.

49:35

Gan gofio'r egwyddor o gymryd risgiau cadarnhaol. Felly yn yr asesiadau a'r
cynlluniau, mae angen cynnwys beth sydd o fewn y llinell las hon.

49:46

A mwyaf yn y byd y gallwn ni ddisgrifio hyn drwy'r lens hwn, mwyaf fydd y
cyfle i ni hwyluso llesiant pobl

49:53

drwy eu profiadau bywyd yn hytrach na chynnig atebion dros dro.

49:59

Felly unwaith eto, gallwn weld lle mae'r egwyddorion ar gyfer ymarfer yn
berthnasol

50:06

a lle mae angen iddynt fod yn sail i'r dulliau gweithredu, yr ymarfer, y camau
gweithredu, y rhannau o'r broses y dylem ei dilyn.

50:18

Myfyriwch ar y mewnbwn sydd wedi'i rannu mewn trafodaethau, gennych chi
neu yn y grwpiau,

50:25

gan ystyried yr egwyddorion ar gyfer ymarfer sydd ar y sgrin.

50:30

Rhannwch â'ch gilydd y profiadau hynny lle rydych chi wedi gweld yr egwyddorion hynny ar waith.

50:37

Beth fyddwch yn ei glywed wrth ddarparu gwasanaethau a chymorth sy'n rhoi sicrwydd i chi mai dyna'r ymarfer a'r diwylliant sydd yn eich sefydliad chi?

50:46

Efallai fod hynny'n fater o beth rydych yn ei weld yn cael ei gofnodi neu ei ysgrifennu

50:53

yn y gwaith papur sydd angen ei gwblhau. Myfyriwch ynghylch pa mor dda rydych chi wrth gyflawni'r egwyddorion,

51:02

gan geisio defnyddio dull seiliedig ar gryfderau. Dechreuwch y sgwrs/myfyrdod drwy nodi'r pethau rydych yn gwybod eich bod yn eu gwneud yn dda,

51:14

y pethau rydych yn hyderus amdanynt, a sut rydym yn gwybod ein bod yn eu gwneud yn dda.

51:20

Felly treuliwch tua 15-20 munud yn eich grwpiau yn dadansoddi hyn, sut mae'n dod i'r amlwg yn eich sefydliad chi.

51:29

Rhannwch enghreifftiau lle mae hyn yn gweithio'n dda, enghreifftiau lle rydych yn myfyrio ar hyn,

51:35

meysydd lle gellid gwneud ychydig mwy neu wneud rhywbeth yn wahanol.

51:43

Mae hyn yn crynhoi'r elfen ymarfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, gan ei

chysylltu â beth sydd angen i ni ei ddarparu,

51:52

a meddwl eto am y ffordd y byddwn yn edrych ar ansawdd a rhai o'r meysydd allweddol y gallwn ganolbwyntio arnynt

51:59

wrth ystyried a ydym yn sicrhau bod ein hymarfer yn canolbwyntio ar yr unigolyn.

52:06

Fyddwch chi'n disgrifio hyn yn eich datganiad o ddiben? A yw'r dull gweithredu hwnnw wedi'i ddisgrifio yn y llawlyfrau gwybodaeth

52:15

mewn ffordd sy'n ddealladwy i'r unigolyn? A ydym yn ceisio deall beth fydd ei brofiadau?

52:22

A ydym yn meddwl am yr anghenion gofal a chymorth, y canlyniadau arfaethedig, y risgiau?

52:29

A ydym yn treiddio'n ddyfnach ac yn gofyn y cwestiynau 'beth felly?'

52:34

wrth ystyried ein hasesiadau o addasrwydd? Wrth ddatblygu a chynhyrchu ein hasesiadau a chynlluniau personol a chynnal yr adolygiadau,

52:44

a ydym yn disgrifio ein safonau gofal a chymorth, a ydym yn cydnabod bod y safonau gofal a chymorth hynny

52:52

yn gysylltiedig yn uniongyrchol â'r diffiniad o lesiant yn y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.

53:01

Ac mewn arolygiadau gan Arolygiaeth Gofal Cymru, byddant yn canolbwyntio

ar y canlyniadau llesiant hynny.

53:09

Byddant yn chwilio am dystiolaeth o ymarfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn

53:15

ac yn seiliedig ar gryfderau ym mhob agwedd ar beth mae'n ofynnol i ni ei ddarparu.

[Arwain ansawdd fel Unigolyn Cyfrifol: ymgorffori arfer sy'n seiliedig ar gryfderau \(rhan 1\)](#)

PPTX 882KB

Rhan 2

Mae rhan 2 yn esbonio sut i ddefnyddio ymarfer sy'n seiliedig ar gryfderau gydag arweinyddiaeth dosturiol i wella ansawdd gofal.

Gweld trawsgrifiad

0:00

Dyma ran dau y sesiwn hyfforddi am arwain ar ansawdd mewn lleoliad a reoleiddir.

0:08

Felly, ynghylch rhan dau, y nodau ac amcanion fyddai myfyrio ar yr hyn a ddysgwyd yn rhan un

0:15

a sut mae'r ymarfer wedi'i siapio. Does dim disgwyl y bydd pethau wedi newid yn sylfaenol bob tro,

0:22

ond y bydd rhywfaint o feddwl yn digwydd gyda rhywfaint o fyfyrion ac y ceir rhai mewnweliadau newydd efallai i'ch ffordd o ymarfer.

0:34

Mae hynny'n golygu beth rydych yn ei feddwl unigolion neu sefydliad.

0:40

Yn rhan dau, byddwn yn rhoi mwy o sylw i'r dull ymarfer yn seiliedig ar gryfderau

0:46

a chyflwyno egwyddorion arweinyddiaeth dosturiol er mwyn datblygu dull seiliedig ar gryfderau

0:54

a rhoi arweiniad ar sut y gallwn siapio safonau ansawdd a sut y mae'r rhain yn cyfrannu i'n hadolygiadau o ansawdd gofal fel darparwyr.

1:06

Gyda golwg ar ansawdd un o'r pethau allweddol yw bod yn glir ynghylch beth yw'r diffiniadau o ansawdd yn y sefydliad.

1:15

Beth yw ei natur? Beth mae'n golygu? Sut fyddai pobl yn ei brofi?

1:21

Sut mae hynny'n cael ei hyrwyddo ar draws y sefydliad fel bod pawb arall yn ei ddeall?

1:27

Sut mae'n cael ei fesur er mwyn sicrhau ein bod yn cyflawni? Ac wedyn sut mae'n cael ei fonitro

1:34

i weld pa effaith rydym yn cael ar fywydau'r unigolyn rydym yn cynorthwyo.

1:40

Dyma thema'r sesiwn rhan dau. Parhau i ystyried ein dull o weithio gyda phobl trwy ddull seiliedig ar gryfderau,

1:48

Ile mae hynny'n rhywbeth sy'n cael ei drafod yn aml. Fel roeddem wedi trafod yn rhan un, mae'n fwy na mater o ddim ond sylwi ar y cryfderau.

1:59

Mae angen canfod beth sy'n gweithio ac mae angen meddwl am beth mae'r unigolyn yn gallu ei gwneud.

2:06

Rhaid i ni ei weld fel dull o weithredu, dull o weithredu sydd wedyn yn cyfrannu at annibyniaeth,

2:14

cadernid, dewis ar gyfer pobl, a gwella llesiant.

2:20

Rhaid i ni feddwl am ddull seiliedig ar gryfderau mewn nifer o gyd-destunau.

2:26

Er enghraifft, gallai fod am wella sefyllfa'r unigolyn a byddwn yn defnyddio'r cryfderau hwnnw er mwyn gwella ei sefyllfa.

2:35

Neu all e fod am gynnal sefyllfa bersonol yr unigolyn a gall ymwneud hynny.

2:41

Mae angen i ni feddwl am sut byddwn yn mabwysiadu dull seiliedig ar gryfderau er mwyn gwneud hynny.

2:49

Ond, gellid cael achos lle mae sefyllfaoedd unigol yn debygol o ddirywio

2:56

a bod angen i ni feddwl sut byddwn yn cadw cymaint â phosibl o'r annibyniaeth,

3:01

cadernid, a dewis er gwaethaf y dirywiad hwnnw yn amgylchiadau'r unigolyn.

3:09

Rhaid i'r dull seiliedig ar gryfderau fod yn un cydweithredol. Rhaid iddo olygu mwy na dim ond dweud wrth yr unigolyn beth mae'n ei wneud yn dda.

3:19

Os ydyn ni wedi defnyddio'r priodol o gryfderau pobl, rhaid i'r unigolyn cael rhywfaint o hunanhyder

3:26

a mewnweliad o ran beth yw ei gryfderau er mwyn deall beth mae'n gallu gwneud drosto'i hun.

3:34

Mae angen i ni ddeall a yw'r unigolyn yn gallu ymddiried mewn pobl eraill

3:39

a theimlo'n gyfforddus wrth gael pobl eraill yn ei helpu, neu a yw'n teimlo ei fod yn gallu cael mynediad at gymorth yn y gymuned.

3:48

Rhaid i'r dull o weithredu fod yn un cymesur a hyblyg ac yn addas i amgylchiadau'r unigolyn,

3:56

ond, fel yr enghraifft a drafodir yn gynharach, ar allu Beti i yrru car,

4:02

pan rydych yn siarad â hi, mae'n dweud nad yw wedi gyrru'r car ers dwy flynedd

4:07

am ei bod wedi colli hyder ac nad yw'n debygol o yrru car eto.

4:13

Wrth ystyried plant, bydd y cyfeiriadau cryfderau ar gyfer plentyn penodol

4:19

yn ymwneud â'r ffaith ei fod yn mynd i'r ysgol. Ond heb ofyn y cwestiwn, felly beth?

4:26

nid oes cyd-destun i ddangos beth mae hyn yn ei olygu i'r plentyn a pham mae hyn yn gryfder ganddo.

4:34

Ai'r ffaith ei fod yn mynd i'r ysgol a'r cryfderau sy'n gysylltiedig â hynny oherwydd yr amser mae'n ei dreulio yn yr ysgol

4:41

am nad yw yn y cartref ac yn agored i effaith cam-drin domestig rhwng rhieni yn y cartref

4:47

a'r ffaith ei fod e'n chwarae'n yr iard pan fydd yn yr ysgol ac mae hwnnw yw'r unig gyfle sydd ganddo i ddatblygu ei sgiliau cymdeithasol

4:56

a threulio amser gyda chyfoedion? Ai mai'r pryd ysgol y mae'n ei gael yw'r unig bryd boeth maethlon y mae'n cael y diwrnod hwnnw?

5:06

Neu, ai mai'r cogydd neu'r glanhawr yn yr ysgol yw'r oedolyn y mae'r plentyn yn ymddiried ynddo ac yn gwybod y gall mynd ato i siarad ag ef?

5:16

Felly unwaith eto, nid y datganiadau cyffredinol lefel uchel rydym yn chwilio amdanynt.

5:23

Y peth pwysig yw manylion a chyd-destun yr unigolyn a beth mae'n ei olygu i'r unigolyn.

5:30

Bydd y dull seiliedig ar gryfderau yn mynd law yn llaw â pharodrwydd i gymryd risgiau cadarnhaol.

5:39

Os gallwn adnabod cryfderau'r unigolyn, gallwn eu defnyddio. Gallwn wneud defnydd priodol o'r cryfderau hynny

5:46

er mwyn helpu i liniaru unrhyw risgiau sydd wedi'u canfod i'r unigolyn hwnnw.

5:55

Yn y bôn, mae'r dull seiliedig ar gryfderau yn canolbwyntio ar beth sy'n bwysig i'r unigolyn

6:02

ac nid y'm yn gwneud dim ond canfod beth mae'n gallu ei wneud drosto ei hun,

6:08

ond hefyd, pwy a beth sydd o'i amgylch i'w helpu. Er enghraifft, efallai mai pwrpas rhai o'r gweithgareddau, fel ymarfer,

6:18

yw cysylltu yr unigolyn ag aelodau'r gymuned. Er enghraifft, rydym yn gwybod bod dau neu dri o unigolion yn byw ar un stad tai

6:28

nad ydynt yn mynd o'u tŷ, sy'n teimlo eu bod wedi'u hynysu a bod hynny'n cael effaith ar lesiant.

6:35

Felly gallai fod ag angen rhyw fath o ofal neu gymorth i ddelio â chanlyniadau ynysigrwydd.

6:42

Allen ni feddwl am ffordd i ddod â'r unigolion hynny i gysylltiadau â'i gilydd.

6:47

Rhywbeth diddorol am y dull seiliedig ar gryfderau yw ei fod yn golygu cydweithredu

6:54

a derbyn hefyd ei fod yn ymwneud â'r ffordd y mae'r unigolyn yn gweld ei hun.

7:00

Bydd llawer o'r unigolion rydym yn gweithio gyda nhw wedi clywed sgysiau o'u hamgylch am ryw adeg yn disgrifio pethau nad ydynt nhw yn cael eu gwneud

7:09

a phethau na allen nhw eu gwneud - pethau na allwn ganiatáu iddynt eu gwneud am fod risg yn gysylltiedig â nhw,

7:18

neu am y byddant yn cael effaith niweidiol ar yr unigolyn. Felly rhaid i ni feddwl ynghylch sut byddwn yn mabwysiadu'r dull seiliedig ar gryfderau

7:27

Ile mae tôn neu natur unrhyw drafodaeth neu gysylltiad â'r unigolyn wedi bod yn ymwneud â dynodi'r cymorth sydd ei angen arno

7:36

am nad yw'n gallu gwneud pethau penodol ac am fod risgiau'n gysylltiedig â nhw.

7:42

Mae gwybod sut mae'r unigolyn yn cael gweld ei hun mewn sefyllfa, yn gweld ei fyd ei hun, yn wirioneddol bwysig.

7:52

Byddwn yn annog pawb i aros a meddwl am bwy rydym yn eu gweld a disgrifio mewn gwirionedd.

7:58

Wrth wrando ar aelodau teulu, wrth wrando ar ymarferwyr eraill,

8:03

wrth wrando ar gymdogion, gofalwyr, ffrindiau, pwy maen nhw'n eu disgrifio mewn gwirionedd

8:10

o gymharu â'r ffordd y byddai'r unigolyn yn ei ddisgrifio ei hun? Yn bwysicach na hynny, a a fyddwn byth yn gofyn i'r unigolyn?

8:19

Rhannwyd enghraifft â mi'n ddiweddar o fenyw a fu'n fydwraig am flynyddoedd,

8:25

llawer o staff wedi sylwi ei bod yn mynd at aelodau staff yn aml gan afael yn eu breichiau a holi i weld a oeddynt yn iawn

8:33

gan roi sylw mawr i iechyd staff. A dim ond wrth geisio deall y rheswm dros yr ymddygiad hwnnw,

8:40

gan fod dementia gan y fenyw ac nad oedd yn gallu cyfleu mewn geiriau pam roedd yn ymddwyn felly.

8:47

Pryd hynny, roedd y staff wedi dechrau deall hanes y fenyw a'r ffaith ei bod yn arfer bod yn fydwraig.

8:55

felly beth wnaeth y staff oedd mynd ar eBay a phrynu un o'r hen declynnau mesur pwysau gwaed

9:01

y byddai'r fenyw wedi defnyddio wrth ymarfer ei bydwaig. Nawr mae hi'n mynd o gwmpas yn mesur pwysau gwaed yr aelodau staff yn rheolaidd

9:10

achos dyna'r ffordd mae'n gallu dangos ei bod yn gofalu am bobl. Rydw i wedi gweld enghraifft unigolyn a oedd yn arfer bod yn bennaeth ysgol

9:20

ac unwaith yr wythnos byddai staff yn dod ato â'u llyfrau ysgrifennu a phennau ysgrifennu

9:26

ac yn eistedd wrth y bwrdd gyda'r gŵr bonheddig hwn a byddai'n rhoi gwres fel pe bai nôl yn yr ysgol.

9:33

Enghraifft arall yw gŵr sy'n curo ar ddrws y swyddfa pob diwrnod yn y cartref preswyl lle mae'n byw

9:39

er mwyn casglu'i gyflog, sydd ddim ond arian papur. Roedd y gŵr hwn yn arfer bod yn löwr a dyma sut roedd e'n cael ei arian.

9:48

Beth oedd yn bwysig iddo ef oedd ei rôl, fel roedd yn dod ag arian i'r aelwyd

9:53

ac yn rhoi bwyd ar y bwrdd a gofalu am ei deulu. Nid yw wedi colli'r elfen honno o hunaniaeth a phwrpas.

10:01

Felly meddyliwch o ddifrif ar y dechrau, pwy yr ydych yn ei weld, pwy yr ydych yn ei ddisgrifio?

10:08

A ydych yn treulio digon o amser yn ceisio deall yr un y mae'r unigolyn yn ei weld yn y drych?

10:14

A ydych yn gofyn i'r unigolyn pwy y mae'n ei weld yn y drych? Achos mae hynny'n fan cychwyn i sgysiau, i gael gwybod yn iawn pwy yw'r unigolyn.

10:25

Os ydw i'n gweithio gyda phlant a phobol ifanc, byddaf yn gofyn iddynt pwy y maent yn ei weld -

10:31

a ydynt yn eu gweld eu hunain yn arwyr, yn rhywun sy'n gryf ac yn hyderus?

10:36

Neu a ydynt yn eu gweld eu hunain mewn golau gwahanol am fod pobl eraill wedi rhoi disgrifiad negyddol ohonynt efallai?

10:45

A byddaf yn gofyn iddynt a allent fod yn uwch-arwr neu fod â gallu goruwcharwr naturiol?

10:52

Beth fyddai hwnnw? Mae rhywbeth arall am y ffordd rydym ni a phawb arall yn gweld yr unigolyn

11:01

ac am y ffordd y mae'r unigolyn yn ei gweld ei hun. Wrth feddwl am ein dull seiliedig ar gryfderau,

11:07

un ymarferiad y gallwch ei wneud drwy fyfyrrio ar eich pen eich hun neu mewn grŵp

11:13

yw dechrau meddwl sut rydych chi fel sefydliad yn gweithio mewn ffordd seiliedig ar gryfderau.

11:20

Nid yw hon yn golygu dweud wrth rywun ei fod yn gwneud yn dda,

11:26

anfon neges e-bost personol wedyn, prynu teisennau un diwrnod,

11:31

neu roi hanner awr ychwanegol am ginio i rywun. Meddyliwch o ddifrif sut rydych chi'n gweithio mewn ffordd seiliedig ar gryfderau yn eich sefydliad

11:42

fel arweinydd neu uchaf-reolwr neu o ran y ffordd rydych yn gweld arweinwyr neu reolwyr yn gweithredu.

11:49

Beth yw hymddygiadau neu nodweddion eu gweithgareddau o rannu ffordd o arwain?

11:56

Os ydych yn arweinydd ac yn rheolwr ac wedi gweld eich staff yn gweithio ac yn rhyngweithio ac yn ymwneud ag unigolion,

12:04

meddyliwch am beth rydych yn ei weld ac yn ei glywed.

12:09

A yw hyn yn dangos i chi, yn rhoi lle i chi gredu bod staff yn gweithio mewn ffordd seiliedig ar gryfderau?

12:17

Os ydych chi'n aelod o staff, beth rydych yn ei gwneud i hyrwyddo dull seiliedig ar gryfderau

12:22

wrth weithio a chynorthwyo unigolion? Meddyliwch o ddifrif am y gwasanaethau rydych yn eu gwneud.

12:29

Y cwestiwn felly, beth yw hwn eto? Felly pa effaith y mae'r dull hwn yn cael ar y ffordd o ddiwallu anghenion yr unigolion

12:38

a chyflawni canlyniadau. Felly, nid yw'n dim ond mater o ddisgrifio sut rydym ni'n gweithio neu'n arwain.

12:46

Mae'n ymwneud â'r effaith y mae'n ei chael ar y gwasanaethau y mae'n ei wneud.

12:54

Mae mabwysiadu dull seiliedig ar gryfderau yn golygu ein bod yn edrych mewn ffordd gydweithredol ar gryfderau'r unigolyn,

13:03

ei alluoedd, ei amgylchiadau a'r bobl a phethau o'i amgylch.

13:08

Mae'n golygu troi oddi ar y syniad mai diffyg yw'r broblem - y risg, yr her, yr amcan, yr ymrwymiad.

13:17

Mae'n bwysig cofio nad yw'r dull seiliedig ar gryfderau yn ymwneud â threfnu gwasanaethau'n unig.

13:23

Rhaid i ni ystyried pa mor gydnerth, pa mor annibynnol fyddai'r unigolyn heb y gwasanaethau hynny.

13:32

Mae hwn yn set o gwestiynau y gallwch chi ei ddefnyddio. Nid oes awgrym y dylid ei ddefnyddio fel tudalen ychwanegol mewn ffurflen,

13:41

fel dogfen arall i'w llenwi, nac y dylem fynd trwy set o gwestiynau parod fel hon wrth ymarfer.

13:49

Mae'r rhain yn cael eu cynnig fel ffordd i gynnal sgwrs gydag unigolion a gallai ei ddefnyddio mewn nifer o wahanol gyd-destunau.

13:57

Gallai fod yn sgwrs gyffredinol gyda rhywun, gallai fod yn rhan o'r asesiad ar gyfer llunio cynllun personol.

14:04

Gellir ystyried rhai o'r cwestiynau hyn wrth adolygu'r cynllun personol yn ôl y drefn arferol.

14:12

Byddai arweinwyr a rheolwyr yn gallu defnyddio'r set hon o gwestiynau mewn sgysiau gyda staff

14:18

ar ôl newid ychydig ar y geiriau. Er enghraifft, beth yw'r pethau roeddech yn arfer eu gwneud yn eich swydd

14:25

ond nad ydych yn gallu eu gwneud nawr? Pa lefel o ymreolaeth a oedd gennych ond sydd heb fod gennych nawr yn eich barn chi?

14:35

Pa effaith y mae hyn yn ei chael? Pa lefel o ymreolaeth yr hoffech ei chael wrth gynorthwyo unigolion?

14:43

Beth rydych wedi gallu ei wneud yn eich rôl nad oeddech yn gallu credu roeddech chi'n gallu ei wneud?

14:50

Gallwch eirio'r cwestiynau hyn yn nhermau rhyngweithio, sgysiau, perthnasoedd ac unigolion sy'n cael cymorth.

14:59

Ond meddyliwch hefyd am y rheini rydych yn eu rheoli ac efallai y gallwch ddefnyddio cwestiynau i helpu staff i fabwysiadu dull seiliedig ar gryfderau.

15:12

Un ymarfer buddiol i'w gyflawni fel unigolyn neu mewn grŵp yw canolbwyntio ar unigolyn rydym yn ei gynorthwyo

15:21

oherwydd gallwn siarad yn nhermau eithaf cyffredinol wrth wneud hynny.

15:26

Ar ystyr y dull gweithredu'n seiliedig ar gryfderau, mae'r pwnc yn dod yn fwy am sôn am yr unigolion sy'n cael cymorth gennym.

15:35

Y peth cyntaf i'w wneud yw meddwl am unigolion penodol.

15:40

Meddyliwch am unigolyn rydych yn gweithio gydag ef ac sy'n cael cymorth gan eich sefydliad.

15:47

Wedyn ewch drwy'r cwestiynau sydd ar y sgrin. Meddyliwch am beth mae'r unigolyn hwnnw wedi gallu ei wneud

15:55

ac nad oedd yr unigolyn neu'r bobl o'i amgylch wedi credu y gallai ei wneud.

16:00

Beth maen nhw wedi gallu gwneud drosto'i hun? Beth oedd e'n gallu ei wneud a faint o hynny sy'n ganlyniad i wneud pethau drosto'i hun?

16:10

Pwy sydd wedi ei helpu a beth mae'n credu i'r helpu ei wneud? Pa gymorth y mae'r unigolion wedi cael gan sefydliadau i wneud hyn?

16:19

Pa gymorth allanol a gafodd yr unigolyn? Yr un mor bwysig yw ystyried sut bydd hyn yn effeithio ar ei angen am gymorth yn y dyfodol.

16:29

Wrth gynnig cymorth i unigolion rhaid i ni feddwl bob amser am y dull seiliedig ar gryfderau

16:36

a'r ffordd mae'n hyrwyddo annibyniaeth, cadernid, llesiant, dewis a rheolaeth.

16:43

Ac wrth i ni wneud rhagor i ganfod cryfderau unigolion a'u helpu nhw i'w canfod,

16:48

dylid cynnwys cam ym mhob proses adolygu i ystyried a oes angen i ni barhau i gynorthwyo fel rydym wedi gwneud erioed

16:57

neu yn gwneud ar hyn o bryd. Er enghraifft, os bydd yr unigolyn yn dweud, "Rydw i'n fwy hyderus nawr

17:04

ar ôl i mi brofi fy hun fy mod i'n gallu gwneud y gwasanaethau dasgau hyn,

17:09

dydw i ddim yn meddwl y bydd angen i mi gael help gan unigolion i wneud mwy o hyn ymlaen.

17:15

"Rydw i'n teimlo mwy o hyder yn fy ngallu i roi cynnig ar wneud pethau eraill ar fy mhen fy hun gyda ffrindiau neu aelodau teulu os byddant yn barod ac yn fodlon i fy helpu."

17:26

Meddyliwch am y math o gymorth y bydd angen arnynt yn y dyfodol.

17:32

Felly treuliwch ychydig o amser ar eich pen eich hun neu mewn grŵp yn meddwl ac yn myfyrio am unigolyn rydych yn ei gynorthwyo.

17:41

Gallwch wneud yr ymarfer hwn i ddibenion hyfforddi neu bydd yn werthfawr mewn sesiynau goruchwyllo, cyfarfod o'r tîm, neu sesiynau myfyrio grŵp.

17:53

Felly, er mwyn crynhoi prif nodweddion y dull seiliedig ar gryfderau,

17:59

mae angen meddwl sut mae'n ymddangos y gwerth yng ngalluoedd unigolion.

18:04

Nid yw hwn yn golygu galluoedd meddyliol o reidrwydd. Mae'n ymwneud â gallu'r unigolyn i gynnal ei hun gan ddefnyddio ei sgiliau, ei wybodaeth, a'i gysylltiadau.

18:15

Nid yw canolbwyntio ar gryfderau yn golygu ein bod yn anwybyddu'r heriau neu'n ceisio ffugio bod yr anawsterau yn gryfderau.

18:24

Mae'n golygu sicrhau cydbwysedd cywir wrth ofalu ein bod yn cynorthwyo unigolion mewn ffordd gymesur.

18:32

Rhaid i ni gydweithio â'r unigolyn ei hun neu gyda'r bobl eraill sydd o'i amgylch.

18:38

Gallem weld ein bod mewn sefyllfa lle rydym yn gorfod herio unigolion eraill. Er enghraifft, ceir llawer o atgyfeiriadau i wasanaethau cymdeithasol neu ddarparwyr

18:49

am fod canfyddiad bod angen help ar yr unigolyn i wneud rhywbeth nad yw'n gallu ei wneud.

18:56

Mae'n bwysig cael sgwrs gyda'r atgyfeiriwr a gofyn, pam rydych chi'n credu nad yw'r person yn gallu gwneud hyn?

19:02

Pryd gollodd y gallu i wneud hyn? Rhowch enghreifftiau i mi o resymau dros gredu

19:08

y gallai wynebu risg neu nad yw'n gallu gwneud rhywbeth. Oherwydd yn eithaf aml wrth sôn am risgiau diffyg cryfder

19:17

nid y risg i'r unigolyn sydd ddan sylw bob amser. Gallai fod yn orbryder ymysg gweithwyr proffesiynol,

19:25

yn ganlyniad i euogrwydd yn y teulu yn ofid. Mae'n golygu na fydd bob amser yn cael darlun hollol gywir o'r sefyllfa.

19:33

Gofynnwch y cwestiynau i'r unigolyn ei hun, er enghraifft. Rydw i'n clywed llawer gan bobl eraill am bethau maen nhw'n credu na allwch chi eu gwneud.

19:42

Ond beth allwch chi ei wneud? Beth ydych chi'n gallu ei wneud drosoch chi eich hun neu i helpu pobl eraill?

19:49

Pam rydych chi'n meddwl nad ydyn nhw'n credu y gallwch chi wneud? Ystyriwch y sgwrs yn fanwl

19:54

ac os oes rhai yn mabwysiadu'r dull hwn o weithredu a'i roi ar waith bydd llawer mwy o unigolion yn dechrau cyd-gynhyrchu cymorth

20:03

yn hytrach na'i dderbyn yn oddefol. Felly, yn y rhan olaf hon o'r sesiwn,

20:09

byddwn yn dechrau crynhoi beth rydym wedi'i wneud yn rhan un, a chrynhoi beth rydym wedi'i wneud yn adran gyntaf y rhan dau hon

20:18

er mwyn dechrau ystyried sut byddwn yn diffinio ansawdd. Mae'r arweinyddiaeth yn agwedd allweddol a hyrwyddo ansawdd mewn sefydliad

20:28

ac o ran diffinio ansawdd mae canfod a mesur yn cael ei sicrhau ansawdd priodol

20:34

yn cael ei weld yn dasg i arweinwyr yn aml. Felly y mae yn bennaf, ond mae cyfrifoldeb gan bawb sy'n gweithio mewn sefydliad

20:42

i arwain ar ansawdd mewn un ffordd neu'r llall. Ond o ran y rheiny sydd mewn rolau arwain,

20:48

mae'n bwysig i chi ystyried pa mor dda rydych chi wrth arwain ar y sefydliad.

20:54

Y ffordd rydych yn arwain y sefydliad fydd yn penderfynu a fyddwch yn darparu gwasanaethau ansawdd da neu beidio.

21:03

Erbyn hyn yng Nghymru, mae gennym egwyddorion arweinyddiaeth dosturiol mewn iechyd a gofal cymdeithasol

21:11

a ddatblygwyd gan Addysg a Gwella Iechyd Cymru. Mae'r naratif am yr egwyddorion yn ddiddorol iawn

21:18

oherwydd rydym eisoes wedi trafod y rhan fwyaf o'r pethau sydd ar y sgrin yn rhan un o'r hyfforddiant ac yn adran gyntaf y rhan dau hon.

21:28

Wrth drafod yr egwyddorion, nid rydym yn clywed toreth o eiriau generig a thechnoleg sy'n ddiarth i bobl,

21:35

felly un peth i'w ystyried fel arweinydd a rheolwr yw sut byddwch yn trosi'r egwyddorion i iaith a themau y gall pobl ei dderbyn a'i ddeall.

21:46

Un ffordd i ddefnyddio'r egwyddorion hyn yw meddwl am beth maent yn ei ddweud wrthym am yr hyn sydd angen i ni ei wneud a pham.

21:54

Ond mae angen i arweinwyr hefyd allu disgrifio ffordd i gyflawni egwyddorion.

22:00

Er enghraifft, fel arweinydd ni fyddwch am sefyll o flaen grŵp o staff a dweud rhywbeth fel,

22:06

"Byddaf yn sicrhau fy mod yn cryfhau parch, llais, dylanwad, a dewis" oherwydd byddai'r rhan fwyaf o'r gweithlu yn troi at ei gilydd ac yn meddwl,

22:15

'Beth mae hynny'n ei feddwl?' Bydd angen i chi allu dweud rhywbeth fel, "Dyma beth rydw i am ei wneud."

22:22

"Dyma'r ymdrech y byddaf yn ceisio ei wneud." "Dyma sut byddaf yn ei gyflawni." "A dyma sut byddaf am i chi deimlo os byddwn yn arwain fel hyn."

22:31

Felly mae angen i ni allu trosi'r egwyddorion i gyfleu'r profiad y caiff y bobl rydym yn eu harwain.

22:40

Gallech gyflawni'r gweithgarwch canlynol fel unigolyn neu mewn grŵp i ystyried ffyrdd i roi'r egwyddorion hyn ar waith.

22:48

Os ydych yn arweinydd neu'n rheolwr, treuliwch ychydig o amser yn meddwl

22:53

pa fath o nodweddion ac ymddygiadau y bydd eu hangen os ydych yn arwain yn unol â'r egwyddorion arweinydd neu dosturiol.

23:03

Pa deimladau fydd gan y staff o ganlyniad i hyn os ydynt yn cael eu harwain yn dosturiol?

23:09

Ac yn y pen draw, os bydd staff yn teimlo eu bod yn cael eu harwain yn dosturiol, bydd hynny'n cael ei amlygu yn y ffordd y maent yn cynorthwyo unigolion wedyn.

23:19

Os ydych yn aelod staff treuliwch ychydig o amser yn meddwl am yr hyn rydych am ei weld

23:25

mewn arweinwyr a rheolwyr o ran ymddygiadau a nodweddion eu gweithgareddau.

23:31

Sut byddwch am deimlo? Sut fyddwch yn teimlo os yw'r arweinydd neu reolwr yn arwain yn unol â'r egwyddorion hyn?

23:40

Fel rhan olaf o'r sesiwn byddwn yn meddwl am ffyrdd i ddechrau siapio,

23:45

disgrifio, a diffinio'r agweddau ar ansawdd sy'n wirioneddol bwysig.

23:52

Ar y dechrau, roeddem wedi sôn am y camau allweddol wrth bennu a rheoli ansawdd.

23:59

Y cam cyntaf yw diffinio ansawdd a math o brofiad a geir o'r ansawdd hwnnw.

24:05

Yr ail gam yw penderfynu sut i hyrwyddo o fewn y sefydliad. Y trydydd cam yw penderfynu sut i'w fesur.

24:14

A'r pedwerydd yw penderfynu sut i fonitro ei effaith a phrofiadau'r unigolyn.

24:22

Cyn i ni ddechrau trafod y cyd-destun deddfwriaethol a'r cyd-destun polisi ansawdd,

24:29

bydd yn ddefnyddiol i ni aros a meddwl am sefyllfa bresennol eich sefydliad.

24:34

Felly, fel unigolyn, neu mewn grŵp, cymerwch ddeg munud i feddwl am y prif elfennau mewn ansawdd yn eich sefydliad

24:44

a sut mae ansawdd yn cael ei ddiffinio a'i hyrwyddo. Rhaid i ni ystyried beth yn union rydym yn ei fesur

24:52

Er enghraifft, bydd pawb yn adolygu polisïau gweithdrefnau, bydd rheolwyr yn adolygu be sydd mewn asesiadau, cynlluniau personol, dogfennau adolygu.

25:03

Rydym yn gwybod bod rhaid i ni gyflawni'r dasg honno. Y cwestiwn yw, beth rydym yn chwilio amdano?

25:10

Felly os yr awn nôl at yr egwyddorion ymarfer a drafodwyd yn gynharach

25:16

os oeddwn, er enghraifft, yn adolygu cynlluniau personol a'r adolygiad o'r cynlluniau personol hynny,

25:23

a fyddwn am weld tystiolaeth eu bod wedi'u cwblhau neu a fyddaf hefyd yn chwilio am dystiolaeth o lais, dewis, a rheolaeth yr unigolyn,

25:33

bod y cynllun wedi'i gyd-gynhyrchu, ei fod yn canolbwyntio ar ganlyniadau ac yn seiliedig ar gryfderau,

25:40

ei fod yn cynnwys elfen o gymryd risgiau cadarnhaol, ai fod yn gymesur?

25:46

Felly, ar eich pen eich hunain neu mewn grŵp, rhaid i ni ystyried o ddifrif beth yw'r elfennau allweddol

25:54

neu ddisgrifiadau allweddol o ansawdd, sut maent yn cael eu hyrwyddo,

25:59

a sut rydym yn gwybod a ydynt yn cael effaith ar brofiad bywyd pob dydd yr unigolyn.

26:06

Bydd llawer o drafodaethau am ansawdd y gweithgareddau a gynhelir yn cael eu seilio ar ansawdd y gofal sy'n cael ei ddarparu i'r unigolyn.

26:17

Bydd o gymorth i ni sicrhau ein bod yn ystyried pob agwedd yr ansawdd.

26:22

Mae ansawdd yn cynnwys gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn sy'n rhan helaeth yng ngwaith, fel rydym wedi trafod trwy gydol yr hyfforddiant.

26:32

Ond wrth feddwl am beth arall sydd wedi ei gynnwys yn rheoliadau a'r canllawiau statudol,

26:38

mae ansawdd hefyd yn cynnwys ymarfer diogel ac effeithiol a threfniadau iechyd a diogelwch fel trefniadau i reoli digwyddiadau,

26:49

rheolau meddyginiaeth, trefniadau diogelu. Agwedd bwysig arall ar ansawdd yw arweinyddiaeth,

26:56

rheoli a diwylliant fel rydym newydd ei drafod mewn perthynas ag arweinyddiaeth dosturiol,

27:03

Ile roeddem wedi sôn am yr angen i'w diffinio, hyrwyddo, mesur, monitro, a sefydlu diwylliant sefydliad.

27:11

Mae pob un o'r pethau hyn yn dylanwadu ac yn effeithio ar ansawdd, fel y mae ein prosesau recriwtio yn sicrhau ein bod yn dilyn prosesau sefydlu,

27:21

yn cofrestru ein staff gyda Gofal Cymdeithasol Cymru, a'n bod yn rhoi sylw i elfen ar y rheoliadau a chanllawiau sy'n ymwneud â'r gweithlu.

27:32

Er enghraifft, fel unigolyn cyfredol, byddwch yn cynnal adolygiad o ansawdd gofal,

27:38

yn cynnig anweliadau yn asesu a yw'r adnoddau'n ddigonol,

27:43

cwblhau adroddiadau ac ati. Felly mae hyn yn eich atgoffa bod ansawdd yn cynnwys nifer o wahanol feysydd,

27:51

yr effaith ar brofiad yr unigolyn a gynorthwyir yn un o'r pethau pwysig

27:57

os nad y pwysicaf i'w ystyried wrth werthuso ansawdd.

28:03

Mae AGC yn glir iawn yn eu canllawiau fod adolygiad ansawdd gofal effeithiol

28:10

yn un sy'n ceisio canfod y graddau y mae anghenion pobl eu hangen.

28:16

Ond pa mor dda ydyn ni wrth ddiffinio ansawdd? Oherwydd os ewch yn ôl at y rheoleiddio a'r canllaw statudol

28:26

fe welwch fod nodweddion ansawdd yn britho'r holl ddogfennau. Nid yw'r nodweddion wedi eu datgan yn gryno ac mewn un lle.

28:35

Bydd llawer o adolygiadau ansawdd gofal yn rhestru ac yn disgrifio nifer fawr o weithgareddau.

28:41

Byddant yn cynnwys rhywfaint o brofiad yr unigolyn, ond mae hyn yn dystiolaeth feintiol ar y cyfan.

28:48

Felly rhaid i ni ystyried beth fyddwn yn ei dweud ar ben y safonau ansawdd fel sefydliad.

28:54

At beth rydym yn anelu? Sut byddwn yn ei fesur? A sut byddwn yn gwybod ein bod yn ei gyflawni?

29:02

Ac mae angen y safonau ansawdd hynny fod yn glir o jargon, yn rhywbeth y mae pawb yn gallu uniaethu ag ef.

29:12

Fel y gwelwch ar y sleidiau, mae rheoleiddiad a chanllawiau yn glir ynghylch beth yw safon ansawdd.

29:18

Mae gofyn i ni fod yn fesuradwy o ran gwybodaeth a beth sydd angen ei wneud er mwyn cyrraedd y safon ansawdd sydd wedi cael ei ddatgan.

29:28

Mae gofyn i ni fod yn fesuradwy o ran effaith y caiff ar unigolyn a'r profiad bywyd pob dydd.

29:35

Dylai safon ansawdd fod wrth wraidd y datgan o'r diben. Mae'n ddigon posibl y bydd cyfeiriad atynt yn eich llawlyfr gwybodaeth.

29:44

Mae angen canolbwyntio a ydynt yn ymweliadau chwarterol yr arolygydd cofrestredig.

29:50

Mae angen iddynt fod yn amlwg yn y ffyrdd a gynhyrchir ac adolygu cynlluniau personol.

29:56

Mae angen iddynt fod yn amlwg yn y ffordd y mae staff yn gweithio o ddydd i ddydd wrth gynorthwyo'r unigolyn.

30:03

Er enghraifft, y ffordd maent yn eu helpu i ddiwallu anghenion gofal personol yr unigolyn,

30:10

ei gynorthwyo i fynd allan yn y gymuned, i fynd i'r ysgol, ac ati.

30:19

Felly, mae wir angen i ystyried sut rydym yn diffinio ansawdd.

30:25

Mae'n bwysig iawn tynnu ar yr ymarfer a wnaethoch o'r blaen a meddwl ynghylch am beth yn union rydym yn ei ddiffinio

30:33

wrth ystyried ansawdd. Mae hyn yn bwysicach fyth nawr gan fod angen i ddarparwyr

30:39

gynnwys datganiad o gydymffurfiaeth yn y pedwar maes a gwelwch ar y sgrin

30:45

yn y ffurflen flynyddol i AGC, sydd angen eu cwblhau er mwyn cydymffurfio â rheoliadau

30:53

yn y canllawiau strategol ar gyfer risgiau. Nid yw'r math o ddatganiad sy'n dweud bod pobl yn teimlo bod eu llais yn cael ei glywed

31:02

neu fod ganddynt ddewis ynghylch eu gofal a chymorth a bod cyfleoedd yn cael eu darparu iddynt.

31:09

Rhaid iddyn ni ddangos sut mae hynny'n digwydd. Felly, beth yw'r broses?

31:14

Trwy ba weithgarwch rydym yn sicrhau bod llesiant pobl yn cael ei glywed?

31:20

Sut byddwn yn gwybod bod hynny'n digwydd a pha effaith y mae'n ei chael ar brofiad yr unigolyn?

31:26

Mae'r un peth yn wir am yr ail, trydydd, a'r pedwerydd datganiad. Bydd y broses yn haws o lawer os bydd gennych set o safonau ansawdd su'n glir ac yn cael eu mesur.

31:37

Felly wrth ystyried ansawdd, mae pawb yn meddwl yn nhermau beth maent yn ei weld, ei ddarllen, a'i glywed.

31:44

Mae'r un peth yn berthnasol wrth anfon holiaduron am fodlonrwydd at staff, at unigolion sy'n derbyn cymorth, ac i aelodau'r teulu a rhanddeiliaid.

31:55

Mae angen i chi gasglu tystiolaeth a gwybodaeth ynghylch y pedwar peth sy'n digwydd.

32:01

Mae angen bod yn ymwybodol iawn hefyd yn y prosesau ar gyfer deall a mesur ansawdd yr elfen o ganolbwyntio ar yr unigolyn.

32:09

Mae hyn yn eithaf anodd gan fod angen cyflawni llawer o weithgareddau.

32:15

Byddwn yn annog yr holl ddarparwyr i aros a meddwl am yr holl brosesau rydym yn rhoi ar waith,

32:21

fel yr holiaduron, yr arolygon, A yw'r rhain yn rhoi cyfleoedd go iawn i'r unigolyn?

32:29

Disgrifio ei brofiad? Y cyfarfodydd preswyl rydych yn eu cynnal?

32:34

Cymerwch gam yn ôl a meddwl mewn difrif a ydynt yn cael eu cynnal ar gyfer y preswylwyr neu ar gyfer y sefydliad sy'n darparu gwasanaeth?

32:44

Gyda golwg ar y cwestiwn mewn holiaduron ac arolygon ar gyfer adolygiadau ansawdd gofal,

32:50

a ydych yn gofyn cwestiynau ar sail beth rydych yn credu sydd angen ei wybod neu ar sail beth mae pobl am ddweud wrthyich?

32:58

Cofiwch bob amser am yr angen i ddatblygu dull o drafod ansawdd gofal sy'n seiliedig ar gyd-gynhyrchu.

33:05

Os y bydd yn un unigolyn cyfrifol ac yn gorfod ystyried beth fyddwn yn cynnal o'r adolygiadau ansawdd gofal,

33:14

mae'n debyg y byddwn yn eistedd gyda staff, gyda'r unigolion sy'n derbyn y gofal a chymorth,

33:20

gyda'r teuluoedd a'u ffrindiau, ac yn egluro iddynt beth yw fy rôl yn adolygu meintio mesur ansawdd.

33:28

Mae'n o'r dibenion wrth gynnal ymweliadau rheoleiddiad. Mae angen i mi gael gwybodaeth am brofiad pob un ohonoch.

33:36

Beth fydddech am ddweud wrthym wrth ymgysylltu'r rheolau ac ym mha ffodd y byddwch am wneud hynny?

33:42

Oherwydd a bod yn hollol onest, faint o bobl fyddai'n dewis llenwi holiadur yn hytrach nag eistedd a chael cwpaned a theisen?

33:50

Bydd plentyn mewn cartref preswyl plant yn fwy tebygol o roi gwybod i chi am ei brofiad wrth gicio pêl ar y cae pêl-droed neu fwyta hufen iâ ar lan y môr.

34:01

Felly mae gwir angen i chi feddwl am eich trefniadau ar gyfer casglu gwybodaeth am y pethau rydych am eu gweld ar y sgrin,

34:08

gan sicrhau eich bod yn canolbwyntio ar yr unigolyn ac yn meddwl am fesurau ansoddol i'w rhoi ar waith.

34:16

Er enghraifft, os oes cwestiwn yn yr holiadur sy'n gofyn, 'A ydych chi'n hapus i dderbyn y gwasanaeth?'

34:22

'A ydych chi'n hapus wrth fyw yn y cartref hwn?' a bod pobl yn cael y dewis i ateb 'ydw' neu 'nac ydw',

34:29

pan mae'n fater o ysgrifennu'r adroddiad ar yr adolygiad ansawdd gofal, mae'n debyg y bydd yn dweud 'bod 98% o'r bobl yn y cartref preswyl hwn

34:39

yn dweud eu bod yn hapus' neu 'bod 89 o'r bobl yn y cartref yn dweud eu bod yn teimlo'n ddiogel.'

34:46

Fodd bynnag, nid yw'n glir beth mae hynny'n ei olygu o ran ansawdd, felly rhaid i chi ystyried beth i ehangu'r cwestiwn a gofyn, 'Byth sy'n gwneud i chi deimlo'n hapus?'

34:57

'Pryd oedd y tro diwethaf i chi deimlo'n hapus?' 'Beth sy'n digwydd o'ch cwmpas sy'n gwneud i chi deimlo'n ddiogel?'

35:04

Hefyd, mae pawb am sicrhau bod pobl yn teimlo eu bod mor annibynnol â phosibl,

35:09

felly byddwn yn gofyn y cwestiwn, 'A ydych chi'n teimlo eich bod yn annibynnol?' 'A yw'ch annibyniaeth yn cael ei hyrwyddo?'

35:17

Bydd 92% yn ateb yn gadarnhaol, ond sut rydym ni'n gwybod beth yw annibyniaeth ym meddwl yr unigolyn?

35:25

A sut byddwn yn gwybod yr ydym yn hyrwyddo hynny? A pha effaith mae hyn yn ei chael ar ansawdd bywyd unigolyn,

35:32

cymorth a gwybodaeth yn disgrifio sut mae pobl yn gweld annibyniaeth, a pha gymorth y maent yn ei gael i'w sicrhau?

35:40

Mae hynny'n rhoi darlun llawer cliriach o beth yw ansawdd.

35:45

Felly, dyma ymarfer lle allwch roi cynnig ar ysgrifennu safon ansawdd

35:51

ar gyfer eich sefydliad am bob un o'r datganiadau cydymffurfio hyn.

35:56

Gallwch fyfyrto ar safonau ansawdd rydych eisoes wedi ysgrifennu

36:01

neu feddwl am ysgrifennu rhai newydd. Wrth ystyried y safonau ansawdd, meddyliwch o ddifrif ynghylch pa lens rydych yn edrych trwyddo wrth eu hysgrifennu.

36:12

A oes safon ansawdd sy'n dweud eich bod am sicrhau bod yr holl staff yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi wrth weithio yn eich sefydliad?

36:20

A oes cwestiwn mewn holiadur i staff sy'n gofyn, 'a ydych yn teimlo eich bod yn cael eich gwerthfawrogi?'

36:27

Ni fydd yr ateb 'ydw' neu 'nac ydw' yn dweud wrthyf a yw'r staff yn teimlo eu bod yn cael eu bod yn cael eu gwerthfawrogi.

36:34

Ar y llaw arall, os byddaf yn mynd at y staff ac yn gofyn, beth sy'n gwneud i chi deimlo bod chi'n cael eich gwerthfawrogi wrth weithio'n y sefydliad hwn?

36:43

A'u bod yn dweud wrthyf beth sy'n gwneud iddynt deimlo hynny, byddai'n dda disgrifio'u profiad o beth maent yn ei ddweud wrth fesur ansawdd.

36:52

A ydw i am gael safon ansawdd sy'n dweud ein bod yn hyrwyddo canlyniadau ar gyfer unigolion?

36:58

Neu a fyddem yn ysgrifennu safon ansawdd sy'n edrych trwy lens yr unigolyn ac yn dweud,

37:04

'rydw i'n gallu gwneud pethau sy'n gwneud i mi deimlo'n hapus.' 'Gallaf wneud y pethau rydw i'n mwynhau.'

37:11

'Gallaf gysgu yn y nos.' 'Rydw i'n gwybod pam ydw i'n teimlo'n ddiogel yn fy nghartref.'

37:16

'Mae gen i gyfleoedd i dreulio amser gyda ffrindiau a phobl sy'n bwysig.' Sut byddwch yn mesur hyn?

37:23

Gofynnwch gwestiwn amdano yn yr holiadur. Chwiliwch yn y gwaith papur am dystiolaeth bod hyn yn digwydd.

37:30

Ystyriwch hyn wrth adolygu cynlluniau personol. Gofynnwch i bobl i rannu eu profiad wrth gynnal ymweliadau ansawdd gofal.

37:41

Wrth ystyried yr ymarfer blaenorol ar ddatblygiad safonau ansawdd

37:47

gallai'r model hwn fod yn un ddefnyddiol i ddod yn ôl at fyfyrion arno gan ei fod yn ymwneud â dweud beth yw ein safonau ansawdd.

37:55

A ydynt yn glir? A ydynt yn ddealladwy ac wedi eu diffinio? Mae'n golygu ystyried beth rydym yn ei fesur

38:02

a sut byddwn yn cael y dystiolaeth i ddangos ein bod yn cyrraedd y safonau ansawdd neu beidio.

38:09

Wedyn, mae'n golygu ystyried sut byddwn yn defnyddio'r wybodaeth honno i fesur yr effaith ar ansawdd.

38:16

Mae'n bwysig iawn ein bod yn ffurfio barn o ran rhyw fath er nad ydw i'n meddwl am hynny mewn ffordd fiwrocratiaid,

38:24

ond, ar ddiwedd prosesu'r adolygiad o ansawdd gofal, rhaid i ni fod mewn lle i ddweud gyda'n gilydd

38:32

mai dyma beth yw natur yr ansawdd yn ein sefydliad a dyma sut rydym yn gwybod ein bod yn sicrhau hynny

38:39

ac yn gwybod pa effaith rydym yn ei chael. Gellir cael adroddiadau ac adolygiadau o ansawdd gofal

38:46

sy'n disgrifio ac yn rhestru pethau o dan gyfres o benawdau, ond beth sydd ei angen mewn gwirionedd

38:54

yw cynnal dadansoddiad a dod i gasgliad neu grynhoi natur yr ansawdd.

39:00

Model buddiol arall sy'n debyg i'r model hwn o ran casglu gwybodaeth yw'r model myfyrio a dadansoddi sy'n gofyn, 'Beth felly?'

39:09

Nawr beth? Er enghraifft, wrth ysgrifennu a chloi adroddiad ar adolygiad o ansawdd gofal,

39:16

beth yw'r wybodaeth rydw i wedi'i chasglu? Felly beth rydym yn ymfalchïo ynddo?

39:22

Beth sy'n gweithio'n dda? Pa wasanaethau rydym yn eu gwneud ym mywydau pobl?

39:28

Ydyn ni'n gwybod? A oes angen i ni weithio ar rywbeth? A oes meysydd sy'n peri pryder?

39:34

Nawr beth sydd angen i ni wneud i ymateb hyn? Hwn fydd y cynllun gweithredu.

39:40

Bydd y cynllun gweithredu sy'n codi o adolygiad o ansawdd gofal yn un sy'n seiliedig ar gryfderau.

39:47

Mae'n iawn cael cynllun gweithredu ar ôl adolygiad o ansawdd gofal sy'n dweud ein bod yn cydnabod bod rhywbeth penodol yn gweithio'n dda yn ein sefydliad,

39:57

ein bod yn ymfalchïo ynddo ac mae un rhan o'r cynllun gweithredu yn parhau â hynny, cadw'r pwyslais,

40:04

cadw'r egni sy'n gweithio i fuddsoddi yn y pethau sy'n gweithio'n dda, a'n bod yn dweud hynny'n glir yn ein cynllun.

40:12

Yn ail ran ein cynllun bydd y meysydd rydym yn gwybod bod angen gweithio arnynt a rhoi sylw iddynt a dyma sut byddwn yn gwneud hynny.

40:21

Y peth arall i'w ystyried yw beth fydd yn digwydd i'r wybodaeth ar ôl cwblhau'r adroddiad

40:27

ac yr adolygiad o ansawdd gofal? Rydym yn gweld gwahanol ffyrdd o drin y wybodaeth rhwng darparwyr -

40:34

rhai'n ei rannu â'r darparwyr gwasanaethau'n unig neu'n ei rannu â'r comisiynwyr yn unig,

40:39

neu roi copi ohono i staff yn unig, er na fydd yn cael ei rannu â staff nac unigolyn sy'n derbyn y gwasanaethau

40:47

neu deuluoedd mewn nifer o sefydliadau. Mae'n bwysig iawn ystyried yr ethos o ganolbwyntio ar yr unigolyn,

40:54

cyd-gynhyrchu, gweithredu ar sail cryfderau, hyrwyddo llais, dewis y rheolau.

41:00

Yr holl egwyddorion hynny rydym wedi trafod trwy gydol y sesiynau hyfforddi.

41:06

A sicrhau bod gwybodaeth a chanlyniadau'r adolygiad yn cael eu darparu i rieni a gymerodd rhan ym mhroses yr adolygiad o ansawdd gofal.

41:16

Mae'n debyg y byddai'n ormod rhoi copi o'r adroddiad llawn, ond byddai crynodeb weledol sy'n cael ei rannu â staff, aelodau teuluoedd, unigolion a chomisiynwyr

41:26

yn dangos casgliadau o brosesu'r adolygiad o ansawdd gofal yn gallu bod yn haws efallai.

41:33

Unwaith eto, mae'r model 'Beth felly?' 'Beth nawr?' yn fframwaith defnyddiol lle allwch ddweud mai hwn yw'r peth rydym yn ymfalchïo ynddo,

41:43

dyma beth rydym yn gwneud yn dda, dyma'r pethau rydym yn gwybod bod angen i ni weithio arnynt,

41:50

a dyma'r pethau byddwn yn parhau i ymdrechu ynddynt, a dyma sut byddant yn gweithio yn y meysydd sydd angen eu datblygu.

41:57

Dylai proses o adolygiad ansawdd gofal fod yn un gynhwysol nid yn unig pan fydd pobl yn cyfrannu iddi,

42:04

ond hefyd pan fydd pobl yn clywed am ganlyniadau'r adolygiad hwnnw. Dylid rhannu'r canlyniadau hynny'n honest ac yn agored gyda phobl

42:14

yn unol ag egwyddorion arweinyddiaeth dosturiol, y dyletswyddau gonestrwydd, ac ati.

42:21

Crynodeb. Felly, er mwyn crynhoi'r negeseuon allweddol sydd wedi codi yn y sesiwn,

42:29

mae perthynas agos iawn rhwng y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant a RISCA.

42:35

Mae'r ddwy ddeddf yn ategu at ei gilydd yn effeithiol. Mae nifer o gysyniadau, egwyddorion a themau sydd yn RISCA

42:43

yn dibynnu'n helaeth ar y manylion sydd yn y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. Felly mae'n bwysig iawn i ni ddeall y cysylltiadau rhwng y ddwy ddeddf.

42:52

Rydym wedi edrych ar bwysigrwydd diffinio, deall a mesur ansawdd trwy lygad yr unigolyn yn bennaf,

42:59

gan hepgor y jargon. Bydd y datganiadau cyffredinol yn ddiystyr

43:05

os na fyddwn yn gofyn y cwestiwn, 'Felly beth?' ac yn deall beth yn union mae hyn yn ei olygu i unigolion.

43:12

Trwy gydol y sesiynau rydym wedi ystyried dulliau seiliedig ar gryfderau.

43:17

Cofiwch nad mater o gofnodi pethau sy'n gweithio'n dda yn unig yw'r dull seiliedig ar gryfderau.

43:25

Y dull seiliedig ar gryfderau sy'n ategu ac yn ymgorffori ein ffordd o ymarfer

43:31

ac mae'n gyson â'r egwyddorion mater Mae'n mynd llaw yn llaw â'r ffordd rydym yn hyrwyddo ac yn sicrhau ansawdd ein sefydliad.

43:40

Ac yn olaf, mae arweinyddiaeth dosturiol yn ffordd effeithiol i hyrwyddo'r dull seiliedig ar gryfderau.

43:46

Mae'n gyson ag egwyddorion ymarfer, mae'n elfen allweddol o'r ffordd rydym yn sicrhau ansawdd yn ein sefydliad.

43:54

Felly, os byddwn yn dod â'r holl agweddu hyn ynghyd, byddwn mewn lle i allu hyrwyddo ansawdd mewn lleoliadau a rheoleiddir drwy lens yr unigolyn.

44:05

Mae'n bwysig iawn eich bod yn treulio ychydig o amser yn crynhoi yr holl wybodaeth rydych wedi'i chael

44:13

ac ymarferai yn ystod yr hyfforddiant ac yn eu troi nhw'n beth sy'n ystyrllon i chi fel unigolyn, fel tîm, neu fel sefydliad.

44:22

Un o'r ffyrdd allwch chi wneud hyn yw myfyrio ar y defnyddiau, myfyrio ar y dysgu ac ar yr holl drafodaethau a gafwyd ac ymrwymo i roi'r gorau,

44:31

i wneud un peth o ganlyniad i'r sesiwn ymrwymo, i ddechrau gwneud un peth o ganlyniad i ddysgu a myfyrio

44:39

ac ymrwymo i barhau i wneud un peth. Cadwch y rhain yn fyw.

44:44

Dewch yn ôl atynt a'u hadolygu. Nid gwneud adolygiad trwy ddweud eich bod wedi eu cyflawni yn unig,

44:51

ond eu hadolygu trwy ofyn y cwestiwn, felly beth? Dywedwch wrth eich hun,

44:57

'Rydw i wedi gallu gwneud hynny, felly beth yw'r gwahaniaeth y maen ei wneud?'

45:04

Diolch. Felly dyna ddiwedd y sesiwn. Diolch yn fawr am gymryd rhan.

Arwain ansawdd fel Unigolyn Cyfrifol: ymgorffori arfer sy'n seiliedig ar gryfderau (rhan 2)

PPTX 1MB

Gwerthoedd ymarfer sy'n seiliedig ar gryfderau

Esbonio'r gwerthoedd sydd eu hangen ar bobl i weithio mewn ffordd sy'n seiliedig ar gryfderau.